

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIF AROLYGYDD 2012-2013

Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Rheoleiddio ac arolygu i
wella gofal a gwasanaethau
cymdeithasol i bobl Cymru





Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw'r arolygiaeth a'r corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ac yn ystyried ein gwaith yn y cyfnod o 1 Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2013 ac yn rhoi golwg gynhwysfawr ar ein canfyddiadau.

Mae hefyd yn disgrifio'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni o ran gwella ein gwaith drwy ein rhaglen foderneiddio, ac yn edrych ymlaen at yr heriau sydd o'n blaen yn 2014 a thu hwnt.

Wrth wneud hynny, mae'n cyflawni'r dyletswyddau a amlinellir yn adran 142 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Ble i gael rhagor o wybodaeth

Rydym yn ysgrifennu adroddiadau ar ein holl arolygiadau ac adolygiadau.

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth bob tri mis ynglŷn â nifer y lleoliadau a'r lleoedd gwasanaeth a reoleiddir gennym.

I gael yr holl wybodaeth hon a mwy o fanylion am AGGCC, ewch i'n gwefan, www.aggcc.org.uk neu dilynwch ni ar drydar [www.twitter.com/cssiw](https://twitter.com/cssiw).



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 0944 6

ISBN digidol 978 1 4734 0942 2

© Hawlfraint y Goron 2014

WG20224

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIF AROLYGYDD 2012-2013

Cynnwys

Crynodeb y Prif Arolygydd	4
Pennod Un	
› Gwybodaeth am AGGCC	9
Pennod Dau	
› Ein perfformiad yn 2012-13	15
Pennod Tri	
› Pa effaith y mae'n ei gael ar fywydau pobl?	25
Pennod Pedwar	
› Darparu gwasanaethau cymdeithasol	33
Pennod Pump	
› Ein blaenoriaethau	41

Crynodeb y Prif Arolygydd

“ Yn ystod y tair blynedd ar ddeg ddiwethaf, ers i'r Ddeddf Safonau Gofal ddod i rym, mae rheoleiddio'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn effeithiol iawn. Mae wedi darparu sylfaen clir o safonau a gweithlu mwy proffesiynol. Dylai llawer o'r clod fynd i Gyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am eu gwaith pwysig nhw. Maent wedi rhoi sylfaen gadarn inni adeiladu arni. ”

~ Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio – pobl, nid llefydd

“ Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod profiadau defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith. ”

~ Imelda Richardson, Prif Arolygydd, Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2009-10.

Yn f'adroddiad cyntaf fel Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) dywedais yn glir iawn i ba gyfeiriad y dylem fynd er mwyn inni foderneiddio fel rheoleiddwyr. Roedd yn rhaid inni roi pobl yn y canol wrth wneud ein gwaith, gan roi mwy o lais iddynt wrth reoleiddio gwasanaethau gofal yng Nghymru.

Rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio; yn lle canolbwyntio ar sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni, rydym yn canolbwyntio yn ein harolygiadau ar brofiadau a bywydau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a'r canlyniadau ar eu cyfer nhw.

“ Roedd yn hyfryd gwyllo'r arolygwyr yn ymwneud â'r plant a'r staff. Roedd yr arolygwyr yn gallu deall naws yr amgylchedd, lefel y gofal, y staff a'r rheolwyr a sut y byddwn yn rhoi sylw i bethau fel y maent yn codi. Mae hyn yn cyfleu i'r staff eu bod nhw cyn bwysiced â'r rheolwr. Ni fydd rheolwr ond cystal â'r tîm sydd y tu ôl iddo fe neu hi. ”

~ Kathy Boardhurst, Paddy's Place Puddleducks, Dinbych-y-pysgod



Pobl yw canolbwynt ein harolygiadau. Drwy siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gwranddo ar eu profiadau a phrofiadau eu teuluoedd a'u gofawlyr, gallwn gael gwell darlun o wasanaeth – ansawdd y gofal, sut y mae'n gwarchod urddas a hawliau pobl ac yn hyrwyddo eu lles, ac a yw'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol iddynt ai peidio. Rydym hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar 'arsylwi'n uniongyrchol' ar y gofal sy'n cael ei roi ac rydym wedi ehangu ein defnydd o'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu er mwyn cael tystiolaeth yn sail i'n harolygiadau.

Rydym yn ffodus fod gennym bobl frwdfrydig, ymroddedig yn ein cynrychioli ar y rheng flaen. Chwaraeodd y rhain ran ganolog yn y newid hwn. Maent yn credu'n bendant fod eu gwaith yn gallu gwneud gwahaniaeth i les pobl sy'n agored i niwed a theimlant eu bod yn cyflawni rhywbeth pwysig wrth iddynt weithio'n galed i ddatblygu AGGCC a'i wneud yn rheoleiddiwr modern.

Mae hwn yn gam pwysig yn ein hanes. Ond drwy ein Rhaglen Foderneiddio rydym am fynd ymhellach o lawer er mwyn cynnwys pobl yn ein gwaith a mynnu gwelliannau.

“Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn siarad â phobl sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau. Rydym wedi gwranddo ar bopeth a gafodd ei ddweud gan bobl er mwyn datblygu ein Cynllun Cyfranogi newydd. Mae ein Cynllun yn nodi sut y gall pobl ddweud eu dweud a sut y gallant gyfrannu ymhellach at ein gwaith. Mae hefyd yn disgrifio beth rydym yn bwriadu'i wneud dros y flwyddyn nesaf.”

~ Imelda Richardson, wrth lansio'r Cynllun Cyfranogi

Mae ein Cynllun Cyfranogi yn nodi newidiadau sylfaenol i'r ffordd rydym yn cael ein llywodraethu ac i'n gwaith arolygu, gan roi llais a dylanwad gwirioneddol i bobl dros ein gwaith. Wrth wraidd y newidiadau hyn bydd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a thri Bwrdd Cynghori Rhanbarthol – i oruchwylio ein gwaith a helpu i lunio ein blaenoriaethau – a'r defnydd o ymwelwyr annibynnol i gynnig golwg arall ar wasanaethau.

Fe wnaethom gynnal cynllun peilot eleni gan ddefnyddio ymwelwyr annibynnol mewn cartrefi i bobl hŷn a phobl ag anabledd dysgu. Rhoesant eu sylwadau ar brofiadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a gwelsom pa mor fuddiol yw cael trefn reoleiddio ar waith sydd yn canolbwyntio ar y dinesydd.

“Fel rhywun o'r tu allan, byddant yn gweld pethau o safbwynt gwahanol a gallent dynnu sylw at bethau nad ydym ni sydd yma bob dydd efallai'n ymwybodol ohonynt neu efallai ein bod wedi arfer cymaint â nhw nad ydym yn sylwi arnynt...mae bob amser yn dda o beth cael pâr ychwanegol o lygaid.”

~ darparwr gwasanaeth yn sôn am y Cynllun Peilot ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol

Byddwn yn ymestyn y cynllun peilot i gartrefi plant yn 2014 ac wedyn yn ystyried sut i ddatblygu model sydd yn gynaliadwy a chost-effeithiol ac y gellir ei ddefnyddio pan fo hynny'n briodol yn yr holl wahanol wasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio.

Gwasanaethau diogelach ar gyfer pobl

Yn sgil canfyddiadau'r adolygiadau a gynhaliwyd o Ymddiriedolaeth GIG Canol Swydd Stafford a Winterbourne View, sylweddolwyd yn fwy nag erioed pa mor bwysig yw rheoleiddio ac arolygu er mwyn sicrhau bod ein pobl fwyaf bregus yn ddiogel ac yn cael gwasanaethau sydd o ansawdd uchel.

Gweld gwasanaethau 'drosom ein hunain' sydd wrth wraidd ein gwaith o hyd ac yn ystod y flwyddyn cyflawnwyd ein rhaglen arolygu drwy gynnal 3,990 o arolygiadau i arolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn cynnwys o leiaf un arolygiad dirybudd ym mhob cartref gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Rydym bellach yn fwy caled wrth fynd i'r afael â gwasanaethau gwael. Mae'n amhosibl i ni fod ym mhob cartref, meithrinfa a gwasanaeth

bob dydd ac felly y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yw ein llygaid a'n clustiau ar y ddaear ac sy'n cydweithio â ni i gael gwared â gofal gwael. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom sefydlu trefn symlach, haws ei defnyddio, sy'n ei gwneud yn haws i ni ymateb er mwyn delio â phryderon am wasanaethau. Canlyniad hyn yw bod mwy o bryderon yn dod i'n sylw a hynny'n arwain at fwy o arolygiadau dirybudd y tu allan i'r drefn arferol.

Mae gennym drefn glir ar gyfer delio â gwasanaethau sy'n methu ac yn 2012-13 fe wnaethom gymryd camau gorfodi'n amlach. Mae ein trefn orfodi, sef 'gwasanaeth sy'n peri pryder', yn rhoi i wasanaeth gyfnod o amser i ddangos gwelliant neu bydd yn wynebu sancsiynau gan gynnwys datgofrestru. Barnwyd bod deugain a tri o wasanaethau yn 'wasanaethau oedd yn peri pryder' a chymerwyd camau gorfodi yn eu herbyn. O'r rhain, methodd pymtheg â gwella er iddynt gael cyfle. O ganlyniad, fe wnaethom ddileu eu cofrestriad.

At ei gilydd, cawsom fod y rhan fwyaf o bobl yn cael gofal da. Yn yr adroddiad hwn rydym yn rhoi sylw unwaith eto i enghreifftiau o arfer da. Mae hyn yn dangos ymroddiad ac ymdrech y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn.

Yn gynharach eleni cefais y fraint o gwrdd â phreswylwyr, teuluoedd a staff yng Nghanolfan Adnoddau Clydach Court sef cartref gofal preswyl sy'n cael ei redeg gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Gwelais yn ystod f'ymweliad waith blaengar ym maes gofal dementia a hwnnw'n digwydd o ganlyniad i arweiniad cryf a rheolwyr ymroddedig, llawn gweledigaeth sydd wedi gweithio gyda'u timau er mwyn sicrhau newid yn y diwylliant o ofalu am bobl sydd â dementia.

Ond gwyddom hefyd fod gwasanaethau'n wynebu heriau mawr. Mae cartrefi nyrsio'n dweud ei bod yn anodd recriwtio staff nyrsio profiadol sydd â chymwysterau addas. Mewn rhai gwasanaethau mae trosiant staff uchel a'r defnydd o staff asiantaeth yn golygu ei bod yn anodd sicrhau cysondeb yn y gofal. Mae anghenion pobl yn y gwasanaethau hefyd yn mynd yn fwy dwys.

Mae'r holl ffactorau hyn wedi golygu bod y system dan fwy o bwysau ac ar yr un pryd mae'r cynnydd mewn costau hefyd yn rhoi darparwyr dan bwysau fel bod rhai ohonynt yn awgrymu y gallent roi'r gorau iddi. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i gynnal ystod gywir o wasanaethau o ansawdd da ac mae hynny'n anhepgor er mwyn darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.



Rydym eisoes wedi dechrau adolygiad thematig o'r modd y comisiynir gwasanaethau ar gyfer oedolion yng Nghymru, gyda phwyslais ar ddeffientia, er mwyn edrych i mewn yn fanylach i'r materion dan sylw a goleuo ymateb yr awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol. Rydym hefyd yn bwriadu edrych ar y gofal nysio a ddarperir mewn cartrefi gofal.

Cydweithio ac arweiniad yn y gwasanaethau cymdeithasol

Yn ein hadroddiad y llynedd fe wnaethom dynnu sylw at arwyddion gobeithiol bod mwy o gydweithio'n digwydd rhwng awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ni wireddwyd y bwriad i uno gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Penderfynodd Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion hefyd nad oeddent am benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd.

Fe welsom gydweithio da mewn ambell fan ac roedd hynny wedi ysgafnhau'r pwysau ar ysbytai. Ond at ei gilydd nid yw'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol wedi sefydlu partneriaethau a chyd-benodiadau ac nid oes unrhyw gynlluniau ystyrlon yn bod ar lefel strwythurol na strategol.

Roedd partneriaethau llwyddiannus yn dechrau dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd. Roedd nifer o drefniadau cyd-gomisiynu wedi cael eu traed danynt ar gyfer gwasanaethau maethu. Yn yr un modd, gyda gwasanaethau mabwysiadu, roedd rhai awdurdodau yn closio at awdurdodau cyfagos er mwyn darparu gwasanaethau rhanbarthol gan y bwriedir i'r gwasanaeth cenedlaethol fynd yn 'fyw' yn 2014.

Mae Canolfannau Comisiynu Rhanbarthol wedi'u sefydlu ond mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar feysydd lle mae'r gost yn uchel a nifer yr achosion yn isel. Mae angen rhagor o waith er mwyn datblygu dull cwbl integredig o gomisiynu. Bydd ein Hadolygiad Comisiynu Cenedlaethol yn ystyried pwysigrwydd gofalu bod comisiynwyr

yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu ac yn gweithredu'n unol â hynny.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom adolygu hefyd sut roedd strwythurau trefniadol gwahanol awdurdodau lleol yn effeithio ar allu Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Cawsom fod y trefniadau'n amrywio ac nad oedd rhai ohonynt yn cefnogi'r Cyfarwyddwr yn ddigonol nac yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol. Gwelsom hefyd fod cryn newid wedi bod yn swyddogaethau arweinwyr allweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol yn sgil ailstrwythuro, trefniadau dros dro a chyd-benodiadau.

“Bydd sicrhau swyddogaeth Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn elfen allweddol wrth ddarparu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Byddai o fudd i awdurdodau fuddsoddi amser i sefydlu dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau ac atebolrwydd yr holl swyddogion o safbwynt swyddogaeth arwain ac atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.”

~ Imelda Richardson, Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Diogelu plant a phobl ifanc

“Mae cael eich cymryd i mewn i ofal yn medru bod yn sioc fawr ... pan fydd plentyn yng nghanol y sefyllfa, dydych chi ddim yn meddwl am y peryglon nac am yr effeithiau na dim, achos i chi mae'r peth yn normal. Dim ond pan fyddwch chi'n dweud wrth rywun beth sydd wedi digwydd ac mae'r person yna'n darllen y peth yn ôl i chi y mae'r peth yn suddo i mewn 'fi ydy hwn go iawn?'”

~ Unigolyn Ifanc, Gwneud Gwahaniaeth: Sicrhau Canlyniadau Da i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd yng Nghymru, Mehefin 2013.



Yn ystod y degawd diwethaf yng Nghymru cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal o 3,400 ym 1998 i 5,725 yn 2012 ac mae'r pwysau o hyd ar y gwasanaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc agored i niwed. Mae anghenion ac amgylchiadau plant a phobl ifanc yn newid drwy'r amser ac mae angen i'r gwasanaethau fod yn hyblyg a pharod i ymateb i'r newidiadau hyn.

Mae tystiolaeth fod llawer o awdurdodau lleol yn adolygu strwythurau a modelau darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell cydlynad rhwng gwasanaethau cyffredinol, gwasanaethau a dargedir a gwasanaethau arbenigol fel y gellir gwella'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Gofal plant da er mwyn mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant

Mae gofal plant o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig o ran helpu plant i ddatblygu a chyrraedd eu llawn botensial ac i roi mwy o gyfle iddynt mewn bywyd yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig wrth gefnogi agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant.

Mae'r sicrhad a geir drwy waith AGGCC yn sail i strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y llefydd gofal plant sydd ar gael. Mae hefyd yn hyrwyddo gwelliannau i ansawdd gofal plant. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal peilot ar gyfer Fframwaith Dyfarnu Ansawdd i feithrinfeydd, a fydd yn ein galluogi i roi neges gliriach

am ansawdd gwasanaethau ac yn helpu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwell gwybodaeth.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, byddwn yn parhau i gynnal ein rhaglen gynhwysfawr o arolygiadau er mwyn sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn cael llais – gan barhau i ymrwymo i roi pobl yn gyntaf yn ein holl waith.

Rhan sylweddol o ddarlun mawr ydym ni. Er mwyn gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru a sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru, mae angen i'r holl sector – ein gwasanaethau gofal, comisiynwyr yr awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd, mudiadau cefnogol, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd a'u gofalwyr – gydweithio er mwyn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau da ar gyfer y bobl sy'n derbyn gofal.

Fe'm calonogwyd yn fawr o weld pa mor frwdfrydig ac ymroddedig yw ein holl randdeiliaid ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n parhau i'r dyfodol.

Yn olaf, ni fyddai'r trawsnewidiad hwn wedi gallu digwydd heb gefnogaeth ein staff ymroddedig. Diolch yn fawr i bawb yn AGGCC am eu gwaith caled a'u hymroddiad.



Imelda Richardson
Prif Arolygydd,
Arolygiaeth Gofal
a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru

Pennod Un

Gwybodaeth am AGGCC

Rydym yn gyfrifol am wella gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy reoleiddio ac arolygu gwasanaethau. Ein nod yw sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd da sydd o fewn eu cyrraedd, yn ddiogel ac yn diwallu eu hanghenion a hyrwyddo eu hawliau.

Rydym yn rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a'r rhai sy'n llunio polisïau. Mae ein gwaith yn cefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sydd wedi ymrwymo i roi llais cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau a dderbyniant i bobl sy'n defnyddio gofal a gofalwyr, gan sicrhau bod pobl yn cael y cymorth angenrheidiol i fyw bywyd llawn.

Rydym yn gweithio tuag at godi safonau, gwella ansawdd a hyrwyddo'r arferion gorau. Rydym yn cynnal adolygiadau cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar feysydd hollbwysig mewn gofal cymdeithasol fel diogelu. Mae hyn er mwyn gwella profiadau pobl a'r canlyniadau ar eu cyfer.

Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ein bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae nifer o drefniadau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein hannibyniaeth. Rydym yn cyflawni ein hamcanion drwy:

- ddarparu sicrwydd annibynnol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ynghylch ansawdd gofal

cymdeithasol yng Nghymru a beth sydd yn cael ei gynnig – mae hyn yn cynnwys helpu i ddiogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;

- gwella gofal drwy adnabod a hyrwyddo arferion da a mynd i'r afael â pherfformiad gwael;
- darparu tystiolaeth a chyngor proffesiynol annibynnol i'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, er mwyn hyrwyddo gwaith blaengar a gwelliannau ac er mwyn goleuo'r gwaith o ddatblygu polisi i gwrdd ag anghenion pobl; a
- darparu gwaith rheoleiddio ac arolygu effeithlon ac effeithiol.


Mae gennym dair Swyddfa Ranbarthol – yng Nghyffordd Llandudno, Merthyr Tudful a Chaerfyrddin – sy'n trefnu'r gwaith a wnawn gyda gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol a'n gwaith rheoleiddio. Ein Swyddfa Genedlaethol, hefyd ym Merthyr Tudful, sy'n arwain wrth gyflawni adolygiadau strategol, cysylltu â dinasysddion, rheoli gwybodaeth a nifer o wasanaethau corfforaethol gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.



Y Rhaglen Foderneiddio

Yn 2011, cychwynnodd AGGCC ar raglen drawsnewid uchelgeisiol er mwyn gwella ein gwasanaethau a gwneud ein gwaith rheoleiddio ac arolygu yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rhan bwysig o'r rhaglen oedd creu strwythur trefniadol newydd i gyfnerthu ein gwasanaethau mewn tair swyddfa a chynnal presenoldeb cryf ym mhob rhan o Gymru. Fe wnaethom sicrhau bod yr adnoddau staff yn cael eu defnyddio'n unol â'n blaenoriaethau a chefnogwyd ffyrdd newydd o weithio; cymerwyd camau hefyd i fod yn fwy effeithlon gan gynnwys lleihau costau.

Rhoddwyd y strwythur isod ar waith ym mis Hydref 2012:



Ein Pwerau Cyfreithiol

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn rhoi pwerau i ni i adolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi pwerau i AGGCC i gofrestru ac arolygu gwasanaethau sy'n darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynnyddoedd cynnar gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.



Beth rydym yn ei wneud

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rydym yn arolygu'r modd y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn gweld sut y mae eu gwasanaethau:

- yn diwallu anghenion pobl, yn gwella ansawdd eu bywydau ac yn hyrwyddo eu hawliau a'u lles;
- yn amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl o niwed; ac
- yn parhau i weithio er mwyn gwella eu gwasanaethau a diwallu anghenion newidiol eu cymunedau.

Mae ein gwaith o arolygu ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cynnwys pob agwedd ar ofal cymdeithasol. Mae Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrannu i hyn drwy gyfrwng hunanasesiad blynyddol y gwasanaethau. Rydym yn monitro gwaith yr awdurdod lleol drwy gyfrwng cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol ag uwch reolwyr, i drafod perfformiad y gwasanaeth a datblygiadau o'i fewn. Rydym hefyd yn cynnal ymweliadau safle, gan fynd i'r llefydd lle mae'r

gwasanaethau'n cael eu cyflwyno er mwyn eu gweld drosom ein hunain a siarad â'r staff a'r bobl sy'n eu defnyddio am eu profiadau.

Rydym yn cyflawni nifer o wahanol bethau mewn perthynas â blaenoriaethau strategol gan gynnwys:

- adolygiadau cenedlaethol a thematig;
- arolygiadau o awdurdodau lleol gyda phwyslais penodol a gweithgareddau gwella i ymateb i faterion penodol sy'n codi;
- monitro perfformiad ac adrodd arno pan fydd camau ymyrryd yn cael eu cymryd;
- monitro'r defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a rhoi adroddiadau ar hyn, yn unol â gofynion y rheoliadau; a
- monitro'r data Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed sy'n cael eu casglu gan yr awdurdodau lleol a rhoi adroddiadau arnynt.

Gwasanaethau a reoleiddir

Fel rhan o'n swyddogaeth reoleiddio, rydym yn cofrestru gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal dydd i blant a ni sy'n penderfynu pwysu sy'n cael eu darparu. Mae'n rhaid i ddarpar ddarparwyr fynd trwy ein proses gofrestru cyn y cânt redeg gwasanaethau. Mae arnom eisiau sicrhau na fydd neb yn cael ei gofrestru oni bai ei fod yn ein barn ni am ddarparu gwasanaeth diogel sydd o ansawdd uchel.

Arolygiadau yw'r rhan bwysicaf o'n gwaith sicrhau ac mae ein cylch arolygu yn golygu y byddwn yn ymweld â gwasanaethau i oedolion bob blwyddyn. Bydd gwasanaethau lle mae risg uchel yn ein barn ni yn cael ymweliadau'n amlach. Arolygiadau dirybudd y byddwn yn eu cynnal fel rheol ac eithrio pan fyddwn yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu a maethu. Rydym yn asesu darparwyr ac yn rhoi adroddiadau ar ddiogelwch ac ansawdd y profiadau ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gan ddefnyddio'r pedair thema arolygu a ganlyn:

- **Ansawdd Bywyd**
- **Ansawdd Staff**
- **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
- **Ansawdd yr Amgylchedd**

Pan fyddwn yn adrodd ar wasanaethau gofal a reoleiddir, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn unol â'r rheoliadau a bod y gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Er bod safonau'n bwysig, rydym wedi newid ein harolygiadau fel mai profiadau a lles pobl sydd yn cael y sylw pennaf yn ein gwaith.

Y llynedd fe wnaethom gyflwyno'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu sef dull sy'n caniatáu i'n harolygwyr asesu profiadau pobl nad ydynt efallai yn gallu dweud sut maent yn teimlo, er enghraifft pobl sydd â dementia. Eleni rydym wedi ehangu ein defnydd o'r Fframwaith Arsylwi Cryno i gynnwys gwasanaethau eraill, fel ein bod yn atgyfnerthu'r pwyslais a roddwn ar y canlyniadau ar gyfer pobl.

Rydym yn defnyddio arolygiad sylfaenol i edrych ar bob un o'r pedair thema neu arolygiad â phwyslais penodol i edrych ar un neu ddwy ohonynt yn unig, er mwyn sicrhau bod gwelliannau wedi digwydd i faterion penodol, fel rheol. Ar ôl pob arolygiad, rydym yn darparu adroddiad byr sydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Fe wnaethom newid ein hadroddiadau eleni er mwyn eu gwneud yn gliriach a mwy dealladwy. Mae arnom eisiau cyfleu neges glir i bobl ynglŷn ag ansawdd y darparwyr.



Gwasanaethau a lleoliadau a reoleiddir gan AGGCC

Cartrefi gofal

Rydym yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer oedolion o bob oed. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 684 o gartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn gyda 23,050 o lefydd ynddynt a 459 o gartrefi gofal ar gyfer oedolion iau gyda 3,410 o lefydd wedi'u cofrestru.

Asiantaethau gofal cartref

Rydym yn rheoleiddio'r asiantaethau a'r sefydliadau sy'n darparu gofal a chefnogaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 409 o asiantaethau gofal cartref wedi'u cofrestru.

Cynlluniau lleoli oedolion

Cynlluniau sy'n cael eu rhedeg yn lleol yw'r rhain ac sy'n galluogi hyd at ddau o bobl sydd angen gofal a chefnogaeth i fyw fel rhan o deulu. Gall lleoliadau fod yn rhai parhaol neu dymor byr neu'n gyfnodau gofal seibiant. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 12 o gynlluniau lleoli oedolion wedi'u cofrestru.

Asiantaethau nyrsys

Sefydliadau yw'r rhain sy'n darparu gwasanaethau nyrsio preifat yn y gymuned a hefyd yn helpu pobl gyda'u gofal personol. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 33 o asiantaethau nyrsys wedi'u cofrestru.

Cartrefi plant

Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wasanaethau gan gynnwys cartrefi gofal traddodiadol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, lleoliadau arbenigol am hyd at 52 wythnos a gwasanaethau seibiant i blant sydd â gwahanol anableddau. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 125 o gartrefi plant wedi'u cofrestru.

Gofal dydd ar gyfer plant

Rydym yn cofrestru ac yn arolygu gofal dydd ar gyfer plant o dan 8 mlwydd oed gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 4,296 o leoliadau gofal dydd gyda 75,944 o lefydd ynddynt.

Gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a rhai annibynnol

Gall plant dderbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n gofalu amdanynt yn eu cartrefi, naill ai am gyfnodau byr neu yn yr hirdymor. Rydym yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu diwallu anghenion plant a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu cofrestru gennym ond ni sydd yn eu harolygu. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 49 o wasanaethau maethu wedi'u cofrestru a 22 o'r rhain yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

Asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol

Rydym yn arolygu, ond nid yn cofrestru, gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol. Mae'r rhain yn darparu gwasanaethau sy'n cynnwys recriwtio, asesu a chymeradwyo oedolion sy'n dymuno mabwysiadu plentyn a hefyd yn cefnogi'r darpar fabwysiadwyr a'r plant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 22 o wasanaethau mabwysiadu wedi'u cofrestru.

Ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach sy'n cynnig llety i fyfyrwyr dan 18 oed

Rydym yn gyfrifol am arolygu'r trefniadau lles ar gyfer plant sy'n aros mewn ysgolion preswyl, ysgolion preswyl arbenigol a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Estyn sy'n gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth addysgol. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 11 o ysgolion preswyl gyda 1,175 o lefydd ac 11 o ysgolion preswyl arbenigol gyda 238 o lefydd wedi'u cofrestru.

Canolfannau preswyl i deuluoedd

Gwasanaeth asesu preswyl yw'r rhain ar gyfer teuluoedd sydd â phlant ac maent yn helpu i ddatblygu sgiliau magu plant a gwella'r berthynas rhwng pobl. Ar 31 Mawrth 2013 roedd un ganolfan breswyl i deuluoedd wedi'i chofrestru.

Gweithio gyda'n gilydd

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yn galw am newid strategol er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol a gofal yng Nghymru. Mae'r newid strategol hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfannol, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth, plant sy'n derbyn gofal a phobl hŷn fregus, ac mae'n galw ar gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau i fynnu gwelliannau a gwneud hynny yn fwy cydlynol. Un fantais bosibl i'r newidiadau hyn fydd bod y gwaith o gyfarwyddo, rheoleiddio ac arolygu yn mynd yn llai beichus drwyddi draw.

Mae'n bwysig ein bod yn cynnig arweiniad a chymorth ar gyfer y strategaeth hon drwy gydweithio'n effeithiol ac effeithlon â'n partneriaid. O dan Raglen Arolygu Cymru, rydym yn cydweithio'n glòs â'r arolygiaethau eraill sef Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn - yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant - ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) er mwyn:

- hyrwyddo cydweithio a chydweithredu;
- cyd-drefnu gwaith cynllunio er mwyn darparu rhaglenni gwaith cymesur sydd yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod y risgiau a'r pryderon pennaf yn cael sylw;
- datblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth; a
- canfod cyfleoedd i rannu'r hyn sy'n hysbys am wasanaethau cyhoeddus a rhoi adroddiadau yn y fath fodd fel y byddwn

yn helpu gwasanaethau i wella, yn cynnig goleuni i'r rhai sy'n llunio polisiau ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy atebol i'r cyhoedd.

Rydym hefyd yn cydweithio'n glòs â Chyngor Gofal Cymru sydd yn gyfrifol am reoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol a sicrhau bod y gweithlu'n ddiogel i ymarfer ac yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau cywir i weithio i safon broffesiynol uchel. Rydym wedi sefydlu model ar gyfer cydweithio er mwyn hyrwyddo rhannu gwybodaeth a rheoli gwybodaeth ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â diogelu.

Rydym yn aelodau o Goncordat Gofal Iechyd a Chymdeithasol Cymru a Fforwm Rheoleiddwyr Cymru. Mae'r Concordat yn cynnwys y prif gyrff sy'n gwneud gwaith adolygu allanol ac yn arolygu, rheoleiddio ac archwilio gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae'n amcanu i adeiladu ar sail y cydweithio sy'n digwydd eisoes rhwng yr aelodau er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau a gwella gwasanaethau. Grŵp o uwch-reoleiddwyr cenedlaethol a lleol yw Fforwm Rheoleiddwyr Cymru sy'n rhannu'r un awydd i fynd i'r afael â rheoleiddio dianghenraid ar fusnesau a hyrwyddo gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Fforwm yn darparu

- cyfle i rannu gwybodaeth, arferion da a gwersi a ddysgwyd;
- cyngor a gwybodaeth am sut i ddatblygu a chynnal gwaith rheoleiddio a gorfodi er mwyn goleuo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn pennu cyfeiriad strategol, yng Nghymru ac yn y DU.



Pennod Dau

Ein perfformiad yn 2012-13

Yn y bennod hon fe welwch beth rydym wedi'i gyflawni yn ystod 2012-13 gan gynnwys cyflawni ein prif swyddogaethau sef arolygu a rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru; gwneud cynnydd gyda'n Rhaglen Foderneiddio; a'r gwaith a wnaethom gyda'r arolygiaethau eraill.

Crynodeb

- Rhwng popeth, cyflawnwyd ein rhaglen arolygu ar gyfer 2012-13 ac fe wnaethom gynnal 3,990 o arolygiadau i asesu ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau'r bobl sy'n eu defnyddio.
- Daeth pedwar deg tri o wasanaethau i fod yn 'wasanaethau sy'n peri pryder' o ganlyniad i ofal gwael ac fe wnaethom gymryd camau i roi sylw iddynt. Mewn rhai achosion roedd hyn yn cynnwys dileu eu cofrestriad ac atal y gwasanaethau.
- Fe wnaethom gofrestru 470 lleoliad, 211 ohonynt yn warchodwyr plant.
- Fe wnaethom osod sylfaen er mwyn i bobl gael llais cryfach yn ein gwaith, drwy newid ffocws a thechnegau ein harolygiadau – gan wrando mwy ar bobl ac arsylwi ar eu profiadau.
- Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cyfranogi gan osod allan fodel llywodraethu newydd; cynnal cynllun pilot ar gyfer defnyddio Ymwelwyr Annibynnol; ac atgyfnerthu ein gweithdrefnau ar gyfer delio â phryderon.
- Roedd ein gwaith ar ddiogelu pobl yn cynnwys adolygu trefniadau awdurdodau lleol i reoli plant mewn angen a'r trefniadau i amddiffyn oedolion agored i niwed.
- Fe wnaethom fonitro'r defnydd o drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac, yng ngoleuni'r canfyddiadau, rydym yn bwriadu ehangu'r gwaith hwn yn 2014 drwy gyfrwng adolygiad cenedlaethol.
- Mewn cydweithrediad ag arolygiaethau eraill, fe wnaethom gwblhau adolygiad pellach yn Sir Benfro a datblygu protocol pryderon difrifol ar y cyd, i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau lle mae angen i sawl arolygiaeth ymdrin â mater gyda'i gilydd.
- Fe wnaethom barhau i gyflwyno ein Rhaglen Foderneiddio gan newid y modd rydym yn trefnu pethau ac yn gweithredu fel y bydd ein perfformiad fel corff rheoleiddio ac arolygu yn gwella.

Ein Rhaglen Foderneiddio

Yn 2011, fe wnaethom gychwyn ar siwrnai i drawsnewid ein dulliau gweithredu er mwyn darparu gwell gwasanaethau ac ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil trefn newidiol yng ngwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol Cymru. Roedd y Rhaglen Foderneiddio yn canolbwyntio ar y prif bethau strategol sy'n ysgogi newid:

- Llais cryf a rheolaeth wirioneddol i bobl yn ein gwaith.

- Bod ein staff yn dysgu a datblygu fel eu bod yn cynnig gwasanaeth hyderus, awdurdodol a phroffesiynol, gan ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi ein barn a chan roi'r lle blaenaf yn ei gwaith i les y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.
- Arolygu ac adrodd agored, tryloyw sy'n rhoi neges glir a dealladwy i bobl am ansawdd gwasanaethau.
- Gweithrediadau effeithlon ac effeithiol gan wneud defnydd llawn o dechnoleg er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau.



Llais cryfach i bobl

Mae ein Cynllun Strategol yn egluro ein bod wedi ymrwymo i roi pobl a'u profiadau yn gyntaf yn ein gwaith. Yn 2013 fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cyfranogi yn seiliedig ar farn pobl am yr hyn roeddent yn dymuno ei wneud er mwyn cyfranogi yn ein gwaith ni a dweud eu dweud.

Mae'r cynllun yn dweud:

- sut y byddwn yn sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth am ein gwaith;
- sut y gallant roi gwybod beth yw eu barn ynghylch gwasanaethau a'u profiad ohonynt, a rhoi adborth am ein gwaith;
- sut y gallant gyfranogi yn uniongyrchol yn ein gwaith; a
- sut y gallant godi pryderon am ansawdd gwasanaethau.

Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Mae'r cynigion hyn yn cynnwys newidiadau sylfaenol i'n trefniadau llywodraethu, drwy greu Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a fydd yn goruchwyllo ein gweithgareddau, gan ein helpu i ddeall pa bethau ynghylch ein gwaith sy'n bwysig i bobl a'n helpu hefyd i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu harolygu. Bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r

cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalmwr. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd ym mis Chwefror 2014.

Bydd Byrddau Cynghori Rhanbarthol yn rhoi cyfle i bobl gyfranogi yn ein gwaith yn eu hardal eu hunain, drwy ddarparu adborth am ein gwaith ac ansawdd y gwasanaethau yn yr ardal dan sylw. Bydd Panelau Adolygu Ansawdd yn adolygu a gwerthuso meysydd penodol o fewn ein gwaith gan roi cyngor arbenigol a rhoi gwybod ar yr un pryd beth yw barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Ymwelwyr Annibynnol

Mae ein Cynllun Strategol yn rhoi lle canolog i gynnwys yn uniongyrchol yn ein gwaith arolygu y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Yn 2012 fe wnaethom gynnal cynllun peilot ar gyfer ymwelwyr annibynnol yn ardal y de-orllewin. Rydym yn ddiolchgar i ddau fudiad sef Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalmwr Pobl ag Anableddau Dysgu ac Age Cymru, a wnaeth ein helpu i recriwtio, hyfforddi a chefnogi ein hymwelwyr annibynnol. Cynhaliwyd cyfanswm o 13 o ymweliadau. Pan wnaethom werthuso'r gwaith, cawsom gadarnhad bod ymwelwyr annibynnol yn gwella'r cyfathrebu â'r bobl sy'n derbyn gofal, sy'n aml yn ei chael yn anodd cael pobl i wrando arnynt. Yn ystod 2013 byddwn yn gynnal peilot gyda'r model ymwelwyr annibynnol mewn cartrefi i blant, gyda'r bwriad o'i ehangu yn y man i gynnwys rhagor o'r gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gennym.

Roedd y peilot ymwelwyr annibynnol yn canolbwyntio ar wasanaethau i bobl hŷn a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ac fe chwaraeodd Fforwm Cymru Gyfan ac Age Cymru ran yn y cynllun. Fe wnaethant helpu i recriwtio a chefnogi'r ymwelwyr annibynnol er mwyn cynnal rhaglen o ymweliadau rhwng 10am a 6pm, gan gynnwys penwythnosau.

Aethant i ymweld â chartrefi gofal a gwasanaethau yn annibynnol ar AGGCC a chawsant eu cynorthwyo i gyfarfod â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a staff a rheolwyr a gwranddo arnynt. Golygodd yr adborth a gafodd AGGCC gan yr ymwelwyr annibynnol ein bod wedi cael golwg wahanol ar y lleoliadau a ffynhonnell arall o dystiolaeth i oleuo ein barn ein hunain am ansawdd y gwasanaethau a pha feysydd y dylid eu harolygu yn y dyfodol.

Ar ôl un ymweliad, fe ysgrifennodd yr ymwelydd annibynnol,

"Dyweddodd pob un o'r preswylwyr y siaradais â nhw eu bod yn hapus yno a'i fod yn gartref da."

"Dangoswyd rhaglen weithgareddau'r cartref i mi a gwelais ei bod yn rhaglen amrywiol, wedi'i theilwrio i weddu i anghenion unigolion a bod llawer o amser yn cael ei dreulio allan yn y gymuned."

Dyma'r hyn a nododd adroddiad arolygu AGGCC:

"Yn gyffredinol, cawsom fod pobl yn cael arfer eu hawliau a'u bod yn cael eu trin â pharch ac urddas. Buom yn eistedd yn yr ystafelloedd cyffredin ac yn sylwi ar y modd yr oedd y staff yn siarad â phobl ac yn ymwneud â nhw. Gwelsom fod y staff yn siarad yn glên â phobl ac yn rhoi amser i wrando arnynt a gwneud beth roeddent yn ei ofyn."

Meddai rhai o'r ymwelwyr annibynnol:

"fe wnaeth yr hyfforddiant roi hyder i mi, roeddwn wedi cael fy mharatoi yn dda"

"roedd yn ddefnyddiol cael fframwaith i weithio iddo...roedd digon o strwythur iddo ac roedd yn rhoi cyfle i wneud sylwadau unigol"

"roedd yn gyfle i mi ddangos fy mod yn malio, bod gen i ddiddordeb mewn pobl"

Meddai rhai o'r darparwyr am ymwelwyr annibynnol:

"Rwy'n credu y byddai'n cynnig llais arall i ddefnyddwyr y gwasanaeth."

"fel rhywun o'r tu allan, byddant yn gweld pethau o safbwynt gwahanol a gallent dynnu sylw at bethau nad ydym ni sydd yma bob dydd efallai'n ymwybodol ohonynt neu efallai ein bod wedi arfer cymaint â nhw nad ydym yn sylwi arnynt...mae bob amser yn dda o beth cael pâr ychwanegol o lygaid."

Y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd

Ym mis Medi 2012 fe wnaethom gynnal digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid, ar gyfer darparwyr a rhanddeiliaid ledled Cymru. Cawsom gyfle drwy gyfrwng y digwyddiadau hyn i glywed sut brofiadau a gawsant o'n gwaith ac effaith y newidiadau yn ein gwaith arolygu ac adrodd, a gyflwynwyd drwy ein Rhaglen Foderneiddio.

Roedd y digwyddiadau hefyd yn gyfle i ni wyntyllu syniadau a chael adborth ar ein cynnig i ddatblygu Fframwaith Dyfarnu Ansawdd ar gyfer ein gwasanaethau a reoleiddir. Roedd pobl yn cytuno y gallai'r Fframwaith fod o fudd ond roedd pryderon i'w clywed hefyd am sut y byddai'n gweithio'n ymarferol. Dyma rai o'r pwyntiau a godwyd:

- Byddai fframwaith yn ein galluogi i fod yn benodol wrth drafod canlyniadau, gwella ansawdd, hyrwyddo'r arferion gorau a sicrhau bod safonau'n codi.
- Byddem yn gallu hyrwyddo gwasanaethau da a gallai dyfarnu bod gwasanaeth yn wael ei helpu i wella.
- Byddai dyfarniad yn golygu penderfyniad eglur ynghylch safonau. Fodd bynnag, byddai'n her sefydlu fframwaith a sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau.

Gwasanaethau a Reoleiddir

Gwaith Cofrestru

Yn 2012 fe wnaethom sefydlu timau cofrestru a gorfodi arbenigol ym mhob rhanbarth er mwyn gwella gwasanaethau a chyflymu'r broses o gofrestru gwasanaeth newydd.

Tabl 1: Nifer y cofrestriadau newydd 2012-13

	Y De-ddwyrain	Y De-orllewin	Y Gogledd	Cyfanswm Cymru
Preswyl – Oedolion	46	29	11	86
Gofal Dydd i Blant	142	123	101	366
Gwasanaethau Plant	9	7	2	18
Cyfanswm	197	159	114	470

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Arolygiadau

Fe wnaethom barhau i ehangu'r defnydd o'n methodoleg arolygu newydd gan gynnwys defnyddio'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu sydd yn helpu arolygwyr i amgyffred profiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a arolygir.

Mae'r Fframwaith Arsylwi Cryno yn seiliedig ar arsylwi dan drefn a ddatblygwyd gan Brifysgol Bradford.





“ Rwy’n gwneud gwaith gofal plant ers deng mlynedd, yn yr un feithrinfa ddydd gydag 11 o staff a 26 o blant.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae’r ffordd y mae’r arolygwyr yn gweithio wedi newid. Mae wedi bod yn drawsnewidiad clir a phendant, yn fy marn i.

Mae’r safonau gofynnol yn dal i gael eu lle ond mae’r ffordd y maent yn cael y wybodaeth gan y lleoliad yn wahanol. Enw’r broses ydi Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygwyr.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, y drefn newydd hon wnaethom ni ei defnyddio ac fe weithiodd yn eithriadol o dda. Roedd y plant i gyd yn gyfforddus, yn hapus a chartrefol. Roedd y staff wedi cael gwybod am y broses newydd ac yn deall ymlaen llaw pa newidiadau i’w disgwyl yn ystod yr arolygiad.

Mae’r dull newydd yn llai ffurfiol; mae’r pwyslais wedi symud oddi wrthyf fi a’r swyddfa yn trafod gwaith papur, at yr ymwneud cymdeithasol lle mae’r arolygwyr yn ymuno’n rhwydd â’r hyn sy’n digwydd ar y diwrnod, gan arsylwi ar y staff a chymysgu â’r plant – i weld y feithrinfa gyfan ar waith. Mae hyn yn rhoi golwg fwy realistig ar bethau yn y feithrinfa.

Roedd yn hyfryd gwyllo’r arolygwyr yn ymwneud â’r plant a’r staff. Roedd yr arolygwyr yn gallu deall naws yr amgylchedd, lefel y gofal, y staff a’r rheolwyr a sut y byddwn yn rhoi sylw i bethau fel y maent yn codi. Mae hyn yn cyfleu i’r staff eu bod nhw cyn bwysiced â’r rheolwr. Ni fydd rheolwr ond cystal â’r tîm sydd y tu ôl iddo fe neu hi, yn fy marn i. Mae gen i dîm ardderchog ac mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi bod gyda mi ers y dechrau.

Roedd ein hadroddiad arolygu yn sôn am lefel y gofal a welwyd ar ddiwrnod penodol. Mae’n gyfle da i wobrwyo’r staff. Gall helpu gyda hyfforddiant staff hefyd.

Rwy’n gweld bod dull newydd AGCC yn helpu i gyflawni eu nod sef gwella’r gwaith rheoleiddio, arolygu ac adolygu. Mae’n rhoi darlun, gan fod plant yn siarad yn onest a heb ystyried lleddfu’r hyn y maent am ei ddweud – “o enau plant bychain”, wrth gwrs.”

~ Kathryn Broadhurst, Paddy’s Place
Puddleducks, Dinbych-y-pysgod

Arolygiadau yw conglfaen ein gwaith sicrhau ac rydym o'r farn ei bod yn hollbwysig gweld drosom ein hunain brofiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fel y gallwn farnu pa mor dda y mae'r gwasanaethau hynny'n gwneud. Ein polisi yw cynnal arolygiadau dirybudd er mwyn inni weld y gwir ddarlun. Yn gyffredinol, fe gyflawnwyd ein rhaglen arolygu i raddau helaeth – cwblhawyd 3,990 o arolygiadau sef 97% o'r gwasanaethau oedd i fod i gael ymweliad.

Rhodddwn flaenoriaeth yn ein gwaith arolygu i wasanaethau sy'n peri pryder a bydd y rhain yn aml yn cael mwy nag un arolygiad yn yr un flwyddyn. Mae rhai arolygiadau a gwblhawyd tua diwedd y flwyddyn heb gael eu cofnodi fel arolygiadau a gwblhawyd am nad oedd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi eto

Tabl 2: Nifer yr arolygiadau oedd i'w cynnal ac a gynhaliwyd gan AGGCC

	31-Maw-2011	31-Maw-2012	31-Maw-2013
Gwasanaethau Oedolion			
Nifer y lleoliadau oedd i'w harolygu	1,511	1,498	1,531
Nifer y lleoliadau a arolygwyd	1,517	1,568	1,547
% o'r lleoliadau a arolygwyd	100	105	101
Gofal Dydd i Blant			
Nifer y lleoliadau oedd i'w harolygu	2,257	2,322	2,405
Nifer y lleoliadau a arolygwyd	2,188	2,400	2,264
% o'r lleoliadau a arolygwyd	97	103	94
Gwasanaethau Plant (a)			
Nifer y lleoliadau oedd i'w harolygu	187	172	180
Nifer y lleoliadau a arolygwyd	173	180	179
% o'r lleoliadau a arolygwyd	93	105	99
Cyfanswm			
Nifer y lleoliadau oedd i'w harolygu	3,955	3,992	4,116
Nifer y lleoliadau a arolygwyd	3,878	4,148	3,990
% o'r lleoliadau a arolygwyd	98	104	97

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

(a) gan gynnwys ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach.

Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

Rydym yn arolygu a gwerthuso'r gwaith a wneir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys adolygiadau cenedlaethol/thematig, gwaith arolygu ar y cyd, adolygu adroddiadau Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cyngorau a chyfarfodydd ymgysylltu chwarterol. Fe wnaethom gyhoeddi'r adroddiadau a ganlyn, sydd i gyd ar gael ar ein gwefan.

Adroddiadau ar Awdurdodau Lleol

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen, Mai 2012.
- Cyngor Dinas Casnewydd – Arolygiad o wasanaethau amddiffyn oedolion, Mai 2012.
- Cyngor Sir Fynwy – Adolygiad o'r gwasanaethau cymdeithasol, Mai 2012.
- Cyngor Sir y Fflint – Arolygiad o'r gwasanaethau amddiffyn oedolion, Mai 2012.
- Cyngor Sir Ddinbych – Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal oedolion, Mehefin 2012.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Adolygiad o'r gwasanaethau cymdeithasol, Mehefin 2012.
- Cyngor Sir y Fflint – Arolygiad o'r gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd, Mehefin 2012.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Arolygiad o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion, Gorffennaf 2012.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adroddiad ar arolygiad y trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Gorffennaf 2012.
- Cyngor Sir Penfro – Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Gorffennaf 2012.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad ar yr arolygiad o wasanaethau plant, Tachwedd 2012.
- Cyngor Dinas Casnewydd – Adroddiad ar yr arolygiad o wasanaethau i blant a theuluoedd, Chwefror 2013

Ymateb i bryderon difrifol

Ym mis Tachwedd 2012, yn dilyn tri adroddiad blaenorol oedd yn tynnu sylw at bryderon am Wasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, fe wnaeth ein Prif Arolygydd weithredu protocol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i bryderon difrifol.

“*Rwyf yn pryderu am y diffyg cynnydd, er gwaethaf ymroddiad a gwaith caled y staff rheng flaen, wrth fynd i'r afael â'r problemau sylweddol yr ydym wedi eu nodi yn y gwasanaethau cymdeithasol i blant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rwyf wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr ac mae'n deall bod angen newid sylweddol ym mherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol i blant a bod angen iddo sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i wella'r gwasanaethau hyn yn gyflym iawn. Rydym wedi cytuno ar dargedau gwella a bydd AGGCC yn cynnal ymweliadau bob tri mis i fonitro perfformiad a chynnydd o ran eu cyflawni*”

~ Imelda Richardson, Prif Arolygydd.

Mae pryder difrifol yn codi pan fo difrifoldeb, amllder a chysondeb problemau yn fwy nag y gellir ymdopi â hwy drwy'r dulliau gweithio arferol.

Adolygiadau cenedlaethol a thematig

Arolygiad cenedlaethol – swyddogaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Darparwyd canllawiau statudol ynglŷn â swyddogaeth ac atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag anghysondeb ym mherfformiad gwasanaethau cymdeithasol mewn gwahanol rannau o Gymru. Fe wnaeth yr adolygiad edrych i mewn i'r modd y mae gwahanol strwythurau trefniadol a modelau cyflawni yn effeithio ar y modd y mae cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni ym maes y gwasanaethau cymdeithasol.

Fe wnaethom ganfod:

- Bod pob awdurdod lleol yn cydnabod y canllawiau statudol a bod y rhan fwyaf wedi sefydlu systemau a threfniadau oedd yn cefnogi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gallai gyflawni cyfrifoldebau'r swydd.
- Er bod rhai nodweddion cyffredin i'w gweld, roedd darlun amrywiol iawn i'w weld o ran trafod, ffurfioli a chyfleu awdurdod y cyfarwyddwr statudol i gyflawni'r prif bethau y mae'n atebol amdanynt yn ei swydd. Gwelodd yr arolygiad enghreifftiau o drefniadau cadarnhaol, a rhai nad oedd wedi ymwreiddio cystal, gyda gwasanaethau unigol, deuol a chyfannol.
- Lle nad oedd y trefniadau'n adlewyrchu'r canllawiau statudol yn llawn, roedd y cyfarwyddwr fel petai'n cyflawni'r hyn y mae'n atebol amdano er gwaethaf y trefniadau corfforaethol ac nid o ganlyniad iddynt.

Adroddiad Monitro Amddiffyn Oedolion 2010-2012

Ym mis Mawrth 2013 fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Monitro Amddiffyn Oedolion lle roeddem yn dadansoddi'r data a gasglwyd

gan awdurdodau lleol ar honiadau o gam-drin oedolion agored i niwed.

Roedd prif nodweddion data monitro'r gwaith amddiffyn oedolion yn yr adroddiad yn debyg i'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd o'r blaen. Maent yn codi cwestiynau ar gyfer y rhai sy'n llunio polisïau, ymarferwyr, arolygwyr ac arweinwyr ar bob lefel.

- Pam mae canlyniad cynifer o ymchwiliadau amddiffyn oedolion yn amhendant?
- Beth y gellir ei wneud er mwyn cynyddu nifer yr ymchwiliadau sy'n arwain at erlyniad troseddol i dramgwyddwyr?
- Sut y gellir helpu pobl agored i niwed i deimlo'n fwy hyderus pan fyddant am leisio'u pryderon am y modd y maent yn cael eu trin?

Roedd yr adroddiad yn amlinellu datblygiadau o ran polisi ac ymarfer yn ystod 2010-12 a ddylai fod o gymorth i ymateb i'r cwestiynau hyn a chwestiynau eraill a ddaw i'r amlwg yn sgil y data.

Gwneud gwahaniaeth: sicrhau canlyniadau da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, Mehefin 2013

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o wasanaethau ar gyfer plant mewn angen yn wyneb y ffaith bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu, o 3,400 ym 1998 i 5,724 yn 2012. Roedd y Cyfrifiad Plant mewn Angen yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn cael canlyniadau gwaelach o ran iechyd ac addysg na'r boblogaeth gyffredinol a chanlyniadau gwaelach na phlant sy'n derbyn gofal.

Dyma oedd y prif gasgliadau:

- Mae gwneud penderfyniadau da yn fuan, ar sail asesiadau gwybodus sydd wedi eu dadansoddi'n dda, yn hollbwysig i gyflawni canlyniadau diogelwch i blant a phobl ifanc.
- Nid oes digon o gydlynw amlasiantaethol nac ymrwymiad strategol i wella'r canlyniadau allweddol hyn i blant mewn angen. Canlyniad hyn yw bod plant mewn angen yn cael canlyniadau addysg ac iechyd gwaelach na phlant sy'n derbyn

gofal, y mae'r gwaith o'u cefnogi yn ddarostyngedig i arweiniad statudol.

- Nid yw llais y plentyn yn cael ei glywed yn gyson gan ymarferwyr ar draws Cymru ac mae hyn yn cyfrannu at ganlyniadau gwael i'r plant hyn o safbwynt iechyd ac addysg. Mae angen canolbwyntio mwy ar gydweithio â phlant a'u teuluoedd.

Atgyfnerthu arferion diogelu yng Nghymru

Ym mis Tachwedd 2012 fe wnaethom gynnal seminar **Cadw plant ac oedolion yn ddiogel**, gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r arferion er mwyn diogelu oedolion a phlant drwy wella gwybodaeth a dealltwriaeth; hyrwyddo cydweithio; gwaith rhyngasiantaeth a rhyngbroffesiwn; rhannu'r arferion gorau a dysgu o brofiad.

Daeth y prif randdeiliaid o'r awdurdodau lleol at ei gilydd yn y seminar hon a chafwyd gweithdai ar faterion fel:

- ysgolion diogel;
- arferion recriwtio a chyflogaeth;
- gwella gwaith diogelu oedolion;
- atgyfnerthu gwaith diogelu mewn adnoddau dynol.

Roedd yr adborth yn awgrymu bod y cynrychiolwyr yn falch o gael cyfle i edrych i mewn i faterion sy'n peri pryder a thrafod beth sydd angen ei wneud er mwyn gwella arferion diogelu. Roeddent hefyd yn croesawu'r cyfle i gymharu a rhannu'r arferion presennol.

Cyd-arolygu

Rydym yn parhau i gydweithio'n glòs ag arolygiaethau eraill yng Nghymru, yn enwedig Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn – yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant – ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o dan Raglen Arolygu Cymru. Cwblhawyd yr adolygiadau thematig a ganlyn ar y cyd.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS)

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i fonitro'r modd y mae'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn cael eu rhoi ar waith ac mae AGGCC yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar y cyd ag AGIC.

Yn y trydydd adroddiad monitro a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013 daethpwyd i'r casgliad fod mwy o achosion Colli Rhyddid wedi cael eu hawdurdodi eleni nag yn y blynyddoedd o'r blaen. Er gwaethaf hynny, roedd dau gorff goruchwyllo heb dderbyn unrhyw geisiadau ac roedd ein gwaith monitro'n amlygu'r ffaith fod y trefniadau diogelu'n parhau i gael eu defnyddio mewn modd anghyson. I raddau fe all yr amrywiaeth a welir adlewyrchu'r ffaith fod y gwasanaethau lle gall y trefniadau fod yn berthnasol yn amrywio, ond rydym yn pryderu nad yw gwybodaeth am y trefniadau diogelu pwysig hyn a dealltwriaeth ohonynt wedi ymwreiddio eto mewn arferion beunyddiol.

Mae'r adroddiad hwn yn codi cwestiynau hollbwysig. Mae'n atgoffa cyrff goruchwyllo ac awdurdodau rheoli y dylent sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a holi eu hunain i ba raddau y maent yn gallu ateb rhai o'r cwestiynau ac ymateb i'r heriau sy'n codi. Dylent hefyd gymharu eu hunain â chyrff goruchwyllo eraill er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r rhesymau pam y gall gwahaniaethau godi.

Cyd-adolygiad o'r trefniadau i ddiogelu plant yr honnir iddynt ddiodeff camdriniaeth gan weithwyr proffesiynol

Ym mis Tachwedd 2011 fe gyhoeddwyd cyd-adolygiad yr arolygiaethau o drefniadau ac arferion rhyngasiantaeth ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro. Cafodd adolygiad pellach ei gynnal a'i gyhoeddi ym Medi 2012 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod o ran rhoi ei *Gynllun Gwella Trefniadau Diogelu Plant* ar waith a gwella eu harferion.

Protocol Pryderon Difrifol

Mae protocol wedi cael ei ddatblygu hefyd ar gyfer Ymdrin ar y cyd â Phryderon Difrifol, sy'n amlinellu sut y bydd AGGCC, Estyn, AGIC a SAC yn cydweithio mewn amgylchiadau eithriadol lle bo digwyddiad, pryder neu risg difrifol i'r cyhoedd yn golygu bod angen arolygiad neu ymchwiliad arbennig gan fwy nag un o'r arolygiaethau.

Cydweithio â'r Cyngor Gofal

Rydym wedi parhau i gydweithio â'r Cyngor Gofal er mwyn dilyn rhaglen waith ar y cyd i sicrhau ein bod fel rheoleiddwyr yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Dilyn yr un drefn ar gyfer defnyddio data i adnabod gwasanaethau sy'n methu.
- Cyd-adolygiadau – rhoesom gefnogaeth i'r adolygiad blwyddyn gyntaf ymarfer i weithwyr cymdeithasol a'r gwaith o ddatblygu canllawiau.
- Rhannu gwybodaeth am ddarparwyr a'r gweithlu.

Mae'r Cyngor Gofal hefyd yn cefnogi datblygu fframwaith proffesiynol ar gyfer arolygwyr AGGCC.

Penaethiaid Arolygiaethau'r Pedair Cenedl

Rydym yn sefydliad sy'n dal i ddysgu ac rydym yn cydweithio'n glòs ag arolygiaethau eraill y DU er mwyn rhannu gwybodaeth, profiadau ac arferion, i feincodi ein gwaith ac ymdrechu i wella'n barhaus.

Croesawodd y Prif Arolygydd fforwm Penaethiaid Arolygiaethau'r Pedair Cenedl lle cafwyd agenda'n canolbwyntio ar, *"Pa fath o reoleiddio ac arolygu sydd arnom ni ei eisiau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y DU, yn dilyn adroddiad Winterbourne View, adroddiad Francis a methiant yr achos cyfreithiol yn dilyn Ymgyrch Jasmine yng Nghymru?"*

Y prif siaradwyr oedd Mr Robert Francis Cwnsler y Frenhines, a gadeiriodd yr ymchwiliad cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford a Margaret Flynn, awdur yr Adolygiad Achos Difrifol annibynnol ar Ysbyty Winterbourne View. Agorwyd y fforwm gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Canolbwyntiwyd ar brif ganfyddiadau'r adolygiadau a'r goblygiadau ar gyfer yr arolygiaethau, gan nodi'n arbennig y materion a ganlyn:

- Cyfyngiadau arolygiadau llai manwl a lle'r rhain mewn trefn arolygu.
- Pwysigrwydd ymweliadau arolygu rheolaidd a threiddgar.
- Cryfderau a gwendidau hunanwerthuso a data perfformiad fel ffyrdd o weld a oes perygl i ddiogelwch pobl.
- Pwysigrwydd canolog cwynion fel ffordd o wybod am berfformiad a diwylliant sefydliadau.
- Pwysigrwydd sicrhau bod comisiynwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu ac yn gweithredu'n unol â hynny.
- Y cyfle sydd i ddatblygu dull o reoleiddio ac arolygu sy'n seiliedig ar hawliau dynol.

Pennod Tri

Pa Effaith y Mae'n ei Chael ar Fywydau Pobl

Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym yn mynd ati i reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, sut rydym yn ymateb i bryderon a pha gamau gorfodi rydym wedi'u cymryd. Mae hefyd yn tynnu sylw at arferion da a welwyd a'r effaith y gall gwasanaeth o ansawdd da ei chael ar fywydau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Crynodeb

- Rydym bellach yn fwy caled wrth fynd i'r afael â gwasanaethau gwael. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom sefydlu trefn symlach, haws ei defnyddio, sy'n ei gwneud yn haws i ni ymateb er mwyn delio â phryderon am wasanaethau.
- Bu cynnydd yn nifer y pryderon yr hysbyswyd ni amdanynt ac rydym wedi cynnal mwy o arolygiadau dirybudd y tu allan i'r drefn arferol nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae gennym drefn orfodi glir a barnwyd bod 43 o wasanaethau yn rhai oedd yn peri pryder; o'r rhain roedd 73% yn wasanaethau i oedolion.
- Cymerwyd camau gorfodi yn amlach yn 2012-13.
- Mae'r ffaith ein bod yn canolbwyntio ar wella ansawdd wedi arwain at ostyngiad cyffredinol yn y risgiau yn ôl yr asesiadau mewn gwasanaethau gofal dros y tair blynedd diwethaf.



Ymateb i bryderon pobl

Mae pryderon yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ar ein cyfer ni. Y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a reoleiddir gennym, ac yn dibynnu arnynt, ynghyd â'u perthnasau, ymwelwyr, staff, gweithwyr proffesiynol perthnasol neu gymdogion yw 'ein llygaid a'n clustiau' pan na allwn ni fod yno. Rydym yn falch o weld pobl yn mynegi

eu pryder, yn gwneud sylwadau ac yn canmol y gwasanaethau a reoleiddir gennym. Mae eu sylwadau yn rhoi mewnwleidiad pwysig i ni ynghylch gwasanaethau ac yn fodd inni wybod am bethau na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt.

Yn Ebrill 2012 fe wnaethom gyflwyno proses symlach ar gyfer ymateb i bryderon ac yn ystod y flwyddyn derbyniwyd cyfanswm o 1,116 o bryderon ynglŷn â 594 o wasanaethau.

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd ar ôl i rieni fynegi pryderon yn ystod cyfarfod â Phrif Arolygydd AGGCC. Roedd a wnelo'r pryderon â chamgymeriadau gyda meddyginiaethau a'r cyfathrebu â pherthnasau mewn cartref gofal ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Yn ystod yr ymweliad buom yn siarad â phobl sy'n byw yn y cartref, staff a'r rheolwr cofrestredig; cawsom olwg ar ffeiliau ac arsylwi ar feddyginiaethau'n cael eu rhannu ac fe wnaethom archwilio'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer meddyginiaethau.

O ganlyniad, cawsom ar ddeall fod dwy system wahanol ar waith, y naill ar gyfer pobl sy'n byw yn y cartref yn barhaol a'r llall ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal seibiant.

Cawsom hefyd fod angen gwella'r cyfathrebu â pherthnasau fel eu bod yn teimlo'n hyderus fod rhywun yn gwrando

arnynt. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau addas, nid oedd llawer o gyfleusterau ar gael ac nid oedd digon o amser y staff wedi cael ei neilltuo ar gyfer hyn er mwyn iddynt allu cefnogi pobl.

Yn ein hadroddiad fe wnaethom gynghori y dylid adolygu'r weithdrefn feddyginiaethau er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cyfarwyddyd clir am y ddwy system wahanol; ac y dylid gwella'r drefn ar gyfer cyfathrebu â pherthnasau pobl a ddeuai i'r cartref ar gyfer gofal seibiant.

Pan aethom i arolygu'r cartref eto, roedd y polisi a'r weithdrefn ar gyfer meddyginiaethau wedi cael eu diweddarau, hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer staff ar y polisi a'r weithdrefn, a dim adroddiadau pellach am gamgymeriadau gyda meddyginiaethau.

Y pethau oedd yn achosi pryder amlaf oedd:

- Esgeuluso defnyddwyr gwasanaeth, 16%.
- Amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth a cham-drin defnyddwyr gwasanaeth yn gorfforol, 11%.
- Pryderon am ymddygiad ac agwedd rheolwyr, 11%.
- Pryderon am fedrusrwydd a hyfforddiant staff, 10%.

Rydym yn dilyn ymhellach bob pryder y rhoddir gwybod i ni amdano, yn enwedig os yw'n ymddangos bod ansawdd y gofal a ddarperir

yn annigonol. Yn benodol, os derbynnir gwybodaeth sy'n awgrymu bod pobl sy'n defnyddio gwasanaeth mewn perygl o gael niwed, byddwn bob amser yn gweithredu ar unwaith gan gynnwys cynnal ymweliad arolygu brys a/neu atgyfeiriad diogelu.

Yn unol â natur yr wybodaeth, mae sawl dewis ar gael i arolygwyr pan fyddant yn delio â phryderon, fel a ganlyn:

- Efallai fod y pryderon yn ddigon difrifol fel bod angen gwneud atgyfeiriad diogelu yn syth.
- Gellir cynnal arolygiad gyda phwyslais

penodol, gan ganolbwyntio'n unig ar y mater oedd yn achosi pryder.

- Gellir cynnal arolygiad sylfaenol er mwyn casglu tystiolaeth benodol at ddibenion diogelu a/neu orfodi.
- Gellir cynnal ynghynt arolygiad y trefnwyd i'w gynnal yn nes ymlaen, er mwyn gallu edrych ar y materion y mynegwyd pryder amdanynt.
- Ar ôl ystyried yr wybodaeth, efallai y bydd

yn briodol atgyfeirio'r pryder i sylw trefn gwyno'r darparwr neu'r awdurdod lleol ei hun neu i sylw asiantaeth arall.

- Lle nad oes tystiolaeth fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu heffeithio yn andwyol, ni chymerir unrhyw gamau pellach.


Tabl 3: Nifer y pryderon a godwyd, 2012-13

	Nifer y Pryderon	Nifer y Lleoliadau
Gwasanaethau Oedolion	888	405
Gofal Dydd i Blant	182	154
Gwasanaethau Plant	46	35
Cyfanswm	1,116	594

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Mae'r tabl hwn yn cyfeirio at gyfanswm nifer y pryderon a godwyd yn 2012-13.

Ffigur A: Gweithrediadau yn sgil pryderon a nodwyd, 2012-13



Mae'r siart hon yn cyfeirio at bryderon a gaewyd erbyn 31 Mawrth 2013. Roedd yr ymchwiliadau i rai yn parhau.


Gweithio er mwyn gwella gwasanaethau

Er mwyn penderfynu ar sail gwybodaeth beth fydd amseriad, nifer a mathau'r arolygiadau, mae ein harolygwyr yn defnyddio offeryn risg er mwyn gwerthuso'r wybodaeth a gesglir am wasanaeth neu leoliad yn ystod eu harolygiadau, ac o ffynonellau eraill fel pryderon, rhybuddion ac atgyfeiriadau diogelu.


Mae'r siartiau isod yn dangos sut y gwnaethom werthuso'r gwasanaethau a arolygwyd gennym, gan eu pennu yn risg uchel, canolig ac isel, fesul math o wasanaeth. Fe welir y symudiad o risg uchel i risg isel rhwng 2011 a 2013 ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau.

Mae cyfran y lleoliadau risg uchel wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn ym mhob maes gwasanaeth. Cartrefi gofal i bobl hŷn yw'r mannau lle gwelir y risg uchaf.


Ffigur B: Proffil risg y cartrefi gofal i oedolion hŷn




Ffigur C: Proffil risg y cartrefi gofal i oedolion iau (gan gynnwys cartrefi nyrsio)



Ffigur D: Proffil risg y lleoliadau gofal dydd i blant yng Nghymru



Ffigur E: Proffil risg y lleoliadau mewn cartrefi plant



Mae'r gwerthusiad risg hwn, ynghyd â hunanasesiad y darparwyr, y pryderon a godwyd a'r adborth gan gomisiynwyr, yn rhoi sail i ni benderfynu ar y rhaglen arolygu sydd i'w chynnal. Cafodd y rhai oedd yn cael eu hystyried yn risg uchel eu craffu'n arbennig yn ystod 2012-13. Mae'r ffordd hon o arolygu yn helpu i wella gwasanaethau a phroffil risg y darparwyr.



Gwasanaethau sy'n peri pryder

Fel rhan o'r penderfyniad i barhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd gofal, rydym wedi cymryd camau gorfodi yn amlach yn ystod 2012-13 pan welwyd nad oedd gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol a'i fod gan hynny yn wasanaeth oedd yn peri pryder.

Rydym wedi symleiddio ac atgyfnerthu ein prosesau gorfodi:

- Os yw pobl yn cael gofal gwael neu os oes risg iddynt, rydym yn rhoi rhybudd diffyg cydymffurfio. Mae'r rhybudd yn egluro beth y mae'n rhaid i'r darparwr ei wneud ac yn gosod amserlen.
- Os yw darparwyr yn methu cydymffurfio, rydym yn cynnal cyfarfod ffurfiol gyda'r darparwr gwasanaeth er mwyn cael eglurhad a sicrwydd ynglŷn â sut y maent am gydymffurfio.
- Os na fyddant yn cydymffurfio wedyn, bydd y gwasanaeth yn cael ei alw yn 'wasanaeth

sy'n peri pryder'. Mae hwn yn gam difrifol ac mae'n golygu bod y gwasanaeth yn cael cynllun gweithredu at ddibenion gorfodi. Gall gynnwys camau cyfreithiol, troseddol a sifil. Gall y camau mewn achos sifil gynnwys defnyddio amodau cofrestru i gyfyngu ar nifer neu ystod y bobl y caniateir gofalu amdanynt neu ddileu'r cofrestriad a chau'r gwasanaeth.

Mae'r newidiadau yn y modd rydym yn ymateb pan na fydd gwasanaethau'n cydymffurfio wedi golygu ein bod yn gweithredu'n gyflymach a thargedu gwasanaethau sy'n methu. Rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013, aseswyd 43 o wasanaethau fel rhai oedd yn peri pryder; roedd 73% o'r rhain yn wasanaethau oedolion.

O ganlyniad i gamau gorfodi:

- rhoddwyd rhybuddion i 15 gwasanaeth er mwyn dileu eu cofrestriad;
- ataliwyd cofrestriad 8 gwasanaeth;
- gosodwyd amodau ar gofrestrriad 4;
- llwyddodd 10 o wasanaethau i gydymffurfio heb i ni orfod gwneud dim byd pellach;

- mae gan y 6 sydd yn weddill gynllun gweithredu ar hyn o bryd er mwyn gorfodi'r gwasanaeth i gydymffurfio.

Rydym hefyd yn cyfrif gwasanaethau sy'n gweithredu heb iddynt gofrestru yn wasanaethau sy'n peri pryder. Yn 2012-13, cafwyd bod pedair asiantaeth gofal cartref yn gweithredu heb gael eu cofrestru.

Bellach mwy dwy o'r rhain wedi cofrestru ac mae'r ddwy arall wedi rhoi'r gorau i gynnig gwasanaeth.

Pan fydd gwasanaeth yn cael ei ddynodi'n wasanaeth sy'n peri pryder, fe all hyn arwain at welliant. Fe welsom welliant sylweddol yn ansawdd y gofal oedd yn cael ei ddarparu mewn cartref nyrsio lle cymerwyd camau gorfodi a allasai arwain at gau'r cartref.

Cynhaliwyd arolygiad â phwyslais penodol ar gartref gofal â nyrsio a mynegwyd nifer o bryderon difrifol a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar ofal a lles pobl, llawer ohonynt â dementia neu yn agored iawn i niwed am resymau eraill. Rhoesom rybudd diffyg cydymffurfio yn nodi ym mha ffyrdd nad oedd y cartref yn bodloni'r safonau gofynnol. Er enghraifft, nid oedd gan y cartref reolwr ers peth amser, nid oedd y staff wedi cael eu hyfforddi i ymateb i anghenion pobl ac roedd angen adnewyddu'r adeilad. Cytunodd perchennog y cartref yn wirfoddol na ddylai neb gael ei dderbyn i'r cartref ac fe safodd y cytundeb hwnnw nes inni gael sicrwydd eu bod wedi gwneud digon o gynnydd a ninnau'n hyderus y gallent barhau i wneud cynnydd.

Buom yn cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a bu hynny o gymorth iddynt er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu tra roedd y gwelliannau'n digwydd.

Pennwyd y lleoliad yn 'wasanaeth yn peri pryder' a sefydlwyd cynllun gweithredu at ddibenion gorfodi. Cafodd y cynnydd ei fonitro yn erbyn y cynllun gweithredu drwy gyfrwng arolygiadau dirybudd pellach. Nid oedd y gwasanaeth yn gwneud y math o gynnydd a ddisgwyliid ac felly fe ystyriwyd dileu ei gofrestrriad. Arweiniodd hyn at gyfarfodydd pellach â pherchennog y cartref gofal ac o ganlyniad fe wnaeth ddeall beth oedd yn rhaid ei wneud a beth oedd y canlyniadau posibl pe na bai'n cydymffurfio.

Bu AGGCC a chomisiynwyr wrthi'n ddiwyd yn cyd-drefnu camau gweithredu a arweiniodd yn y pen draw at welliant sylweddol mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, cafwyd ansawdd y gofal ei wella drwy benodi rheolwr newydd a thrwy hyn fe drawsnewidiwyd ansawdd bywyd i bobl oedd yn byw yn y cartref.

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiadau ar wefan AGGCC fel bod pobl yn ymwybodol o'r pryderon yn y cartref a'u bod wedyn yn gallu gweld y gwelliannau a wnaed.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym mewn sefyllfa unigryw oherwydd ein gwaith cofrestru ac arolygu i weld sut y mae modelau gofal yn esblygu yng Nghymru i fynd i'r afael â her cynaliadwyedd ariannol ac, yn bwysicach fyth, i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar bobl eu heisiau er mwyn eu helpu i fyw yn y modd y maent yn dymuno.

Gall gwasanaethau da sicrhau canlyniadau cadarnhaol a gweithio mewn modd cynhaliol er mwyn galluogi pobl i ffynnu. Ysgrifennodd chwaer rhywun sy'n byw mewn cartref sy'n cefnogi pobl sydd ag anabledau dysgu atom ni i ddweud wrthym am ei phrofiad.

Mae H yn byw mewn gofal preswyl ers iddi fod yn oedolyn ifanc a phan gaeodd hostel mawr o eiddo'r awdurdod lleol fe'i gorfodwyd i symud i'r Firs, cartref yn Nhorfaen sy'n gofalu am chwech o bobl sydd ag anabledd dysgu. Roedd y teulu'n bryderus i ddechrau pan symudodd. Ers iddi ddod i'r Firs rai blynyddoedd yn ôl mae wedi cyrraedd rhai cerrig milltir pwysig, yn enwedig o ran sefydlu trefn ar gyfer bwyta'n iach. O ganlyniad i hynny mae H nid yn unig wedi colli llawer o bwysau ond mae ansawdd ei bywyd wedi gwella gan ei bod yn gallu symud mwy ac yn mwynhau bod yn yr awyr agored a gwneud mwy o weithgareddau.

Cysylltodd ei chwaer ag AGGCC i ddweud, *"Mae'r cartref yn rhyfeddol. Hoffwn rannu â chi beth maent wedi'i gyflawni ar gyfer H a rhai o'r preswylwyr eraill. Ond, rywfodd ac yn rhywle, mae arnaf eisiau i'r cartref, a H, gael eu cydnabod am yr hyn y maent wedi llwyddo i'w wneud. Dylent gael rhyw wobr a dylai cartrefi eraill weld mor rhagorol yw'r rheolwr gofal a'i thîm o staff gofal"*

Pennod Pedwar

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r bennod hon yn rhoi sylwadau am y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth inni asesu adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, ar sail ein hadolygiad o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

Crynodeb

- Roedd yn amlwg ym mhob awdurdod lleol eu bod yn cynllunio gyda golwg ar wynebu gwasgfa ariannol. Mae llawer yn ailstrwythuro er mwyn cyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithlon ond mae eu gallu i gyflwyno newidiadau'n ddigon cyflym yn amrywio ac mewn rhai awdurdodau mae hyn yn gryn her.
- Mae trefniadau comisiynu rhanbarthol yn arwain at gyfleoedd i gael trefn ar y farchnad ar gyfer gwasanaethau, er enghraifft trwy gontractau cyffredin a rhannu safonau ansawdd a threfniadau monitro contractau. Fodd bynnag, mae'n rhaid goresgyn y pethau hynny sy'n rhwystro sefydlu blaenoriaethau cyffredin a dealltwriaeth gyffredin o gostau/buddiannau, ac sy'n rhwystro adeiladu ymddiriedaeth a sefydlu perchnogaeth.
- Mae gwaith partneriaethol yn digwydd ar lefel weithredol yn hytrach na strategol ac felly ni fydd yn arwain at y newidiadau sylweddol sydd eu hangen er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.
- Nid yw awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd lleol wedi ymdrechu i sefydlu partneriaethau a chyd-benodiadau ac nid oedd unrhyw dystiolaeth eu bod wedi sefydlu cynlluniau ystyrlon ar lefel strategol.
- Mae pwyslais cryfach i'w weld ar ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol mewn gwasanaethau i oedolion a phlant; mae'n bwysig bod hyn yn parhau hyd yn oed pan fydd cyllidebau dan bwysau.
- Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diweddar ac mae hyn wedi parhau mewn rhai awdurdodau lle mae nifer y plant sy'n derbyn gofal eisoes yn uchel.
- Mae llawer o benodiadau newydd wedi digwydd ymhlith cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ac mae hyn wedi bod yn her i'r awdurdodau o safbwynt arweinyddiaeth.

Galw cynyddol a chyllidebau dan bwysau

Bydd yr awdurdodau lleol yn wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau a bydd pethau'n waeth hefyd oherwydd y bydd y galw am wasanaethau yn cynyddu gan fod y boblogaeth yn heneiddio. Mae gan lawer o'r boblogaeth hyn anghenion cymhleth. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal hefyd yn uchel. Yr awdurdodau lleol lleiaf sy'n wynebu'r her fwyaf gan ei bod yn fwy anodd iddynt hwy sicrhau unrhyw arbedion maint.

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi ymateb i'r pwysau hyn drwy gynllunio i ailfodelu gwasanaethau gyda'r bwriad nid yn unig o ddefnyddio cyllidebau'n fwy effeithlon ond hefyd er mwyn moderneiddio a gwella gwasanaethau. Crybwyllodd rhai awdurdodau lleol ddiffyg cefnogaeth, yn wleidyddol ac ar lefel cymunedau, i'w newidiadau arfaethedig a hynny'n rhwystro cynnydd. Soniwyd hefyd eu bod yn parhau i wynebu costau trosiannol oherwydd bod angen parhau i gynnal y gwasanaethau presennol drwy gydol y cyfnod trawsnewid.

At hynny, mae'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau wedi cael ei lesteirio mewn rhai ardaloedd oherwydd dibyniaeth ar bartneriaethau, yn enwedig partneriaethau â Byrddau Iechyd Lleol, sydd yn wynebu'r un math o bwysau ariannol.

Llywodraethu ac arwain

Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r trefniadau llywodraethu ac arwain wedi bod trwy gyfnod o newid, ailstrwythuro a phenodiadau dros dro. Bellach mae sawl awdurdod wedi penodi rheolwyr parhaol ac wedi ailstrwythuro eu timau uwch reolwyr ond mae'n rhy fuan i wneud unrhyw sylwadau am ba mor dda y mae'r trefniadau hyn wedi ymwreiddio.

Cawsom ein calonogi o weld bod y trefniadau i ofalu am swyddogaeth cyfarwyddwyr statudol yn gliriach a mwy sefydlog mewn sawl awdurdod na'r hyn a welwyd pan wnaethom ein gwaith maes ar gyfer ein Hadolygiad Cenedlaethol o Swyddogaeth Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2012.

Partnerships and integration

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig er mwyn cael gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Cafwyd ar ddeall bod datblygu canolfannau rhanbarthol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ffordd gadarnhaol o wella ansawdd gwasanaethau ac ar gyfer canfod atebion mwy cost-effeithiol. Er hynny, mae rhai o'r partneriaethau hyn yn fwy aeddfed na'i gilydd ac mae peth pryder y gall canolbwyntio ar waith rhanbarthol fod yn rhwystr i agendâu gwella lleol.

Roedd nifer o drefniadau cyd-gomisiynu wedi cael eu traed danynt ar gyfer gwasanaethau maethu ac roedd rhai o'r awdurdodau yn ceisio ehangu'r trefniadau hyn i gynnwys ardal ddaearyddol ehangach gan gynyddu'r dewis o leoliadau a gwella'r canlyniadau ar


gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd gyda gwasanaethau mabwysiadu, roedd rhai awdurdodau lleol yn closio at awdurdodau cyfagos er mwyn darparu gwasanaethau rhanbarthol gan y bwriedir i'r gwasanaeth cenedlaethol fynd yn fyw yn 2014.

Mae'r cyd-drefniadau sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd yn canolbwyntio ar wasanaethau maethu a mabwysiadu ac ar sefydlu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) trwy Gymru gyfan. Roedd nifer o wahanol drefniadau aml-asiantaeth i'w gweld, a'r rheini'n croesi ffiniau, ledled Cymru. Mae'n rhy fuan i wneud unrhyw sylwadau am y canlyniadau a sicrhair efallai drwy'r fenter hon.

O ran integreiddio â'r Byrddau Iechyd Lleol, mae rhai penodiadau wedi cael eu cyd-ariannu ar lefel uwch reolwyr ond roedd y rhan fwyaf o'r cyd-drefniadau yn ddibynnol ar gyd-leoli staff ac ewyllys da gweithrediadol yn hytrach nag integreiddio ar lefel strategol a threfniadol. Yn wir fe wnaeth rhai awdurdodau dynnu sylw at gyfyngiadau cyllido'r GIG gan nodi bod y rhain yn rhwystro integreiddio gwasanaethau.

Un dangosydd sydd yn awgrymu pa mor effeithiol yw gwaith integredig yw nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol, megis aros am leoliad mewn cartref gofal. Mae hyn wedi gwella at ei gilydd drwy Gymru gyfan yn ystod y tair blynedd diwethaf ond roedd cryn amrywiaeth o awdurdod i awdurdod fel sydd i'w weld yn Ffigur F.

Ffigur F: Oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn, 2012-13



Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol: gwasanaethau i oedolion, ar gael ar system ddosbarthu Llywodraeth Cymru <http://www.statscymru.cymru.gov.uk>

Fe nododd nifer o awdurdodau lleol fod y pwysau i ryddhau pobl yn gynnar i gartref gofal yn hytrach na'u hanfon adref i'w cartref eu

hunain, yn rhoi pwysau ar gyllidebau ac nad oedd bob amser yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i unigolion.

Mae mwy o bobl hŷn wedi aros yn eu cartrefi eu hunain am yn hirach yn Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i waith integredig gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac ad-drefnu'r modd y darperir gwasanaethau.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli rhwng yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda

ac mae tystiolaeth fod y gwasanaethau'n cael eu darparu'n well yn y deuddeng mis diwethaf. Un enghraifft o hyn yw datblygu gwasanaethau cefnogi fel gofal nos sy'n ymateb yn syth a gwelyau ymadfer.

Taliadau Uniongyrchol


Un ffordd y mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn amcanu i roi mwy o annibyniaeth a dewis i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yw drwy ehangu'r defnydd o daliadau uniongyrchol sydd yn galluogi pobl i brynu'r cymorth neu'r gwasanaethau y buasai'r awdurdod lleol fel arall yn eu darparu.

Mae nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf, yn wahanol i'r hyn a

ddigwyddodd mewn rhannau eraill o'r DU. Mae cryn amrywiaeth o awdurdod i awdurdod ac felly mae digon o gyfle i awdurdodau sicrhau bod mwy o bobl yn penderfynu cael taliadau uniongyrchol, gan ddefnyddio hyn fel catalydd i gyflwyno modelau newydd o ofal.

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr oedolion rhwng 18 a 64 oed oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol i'w helpu gyda'u gofal yn ystod 2012-13.

Ffigur G: Cyfanswm nifer y cleientiaid 18-64 a gefnogid yn y gymuned a'r rhai a dderbyniai daliadau uniongyrchol 2012-2013



Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol: gwasanaethau i oedolion, ar gael ar system ddosbarthu Llywodraeth Cymru <http://www.statscymru.cymru.gov.uk>

Mynediad at wasanaethau cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys porth ar y we, canolfannau galw a siopau un stop er mwyn cynnig mynediad rhwydd at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau cyffredin yn y gymuned. Mae rhai o'r pwyntiau mynediad cyntaf wedi cael eu cyfuno â rhai y Byrddau Iechyd a chafwyd adborth cadarnhaol i hyn gan y cyhoedd oedd o'r farn bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn hygyrch a defnyddiol ac yn addas i'r diben.

Tynnwyd sylw at rai anawsterau gan gynnwys diffyg preifatrwydd mewn rhai manau; cyfyngiad ar y mynediad at gyngor proffesiynol, yng nghyswllt canolfannau galw yn arbennig; cyfyngiadau ar yr oriau agor y tu allan i oriau gwaith a gwybodaeth oedd wedi dyddio a/neu heb fod o gymorth.

Yn ystod 2012-13, yn y gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc fe barhaodd prydlondeb asesiadau cychwynnol a chraidd yn dda gan ddangos gwelliant ar berfformiad 2011-12. Gwelwyd amrywiaeth unwaith eto rhwng perfformiad gwahanol awdurdodau lleol.

Roedd diffyg cysondeb yn y modd yr oedd awdurdodau lleol yn cofnodi atgyfeiriadau at wasanaethau plant. Roedd yn debygol bod hynny wedi effeithio ar y lefelau a gofnodwyd o ail-atgyfeirio. Gan fod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffyrdd gwahanol, mae'n anodd cymharu ac efallai fod hyn yn egluro i raddau pam, yn ôl pob golwg, yr oedd trothwyau cymhwysedd yn cael eu cymhwyso'n wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae hyn yn peri pryder oherwydd mae'n bosibl bod cynnydd yn y galw am wasanaethau wedi arwain at drothwyau uwch ar gyfer mynediad mewn rhai ardaloedd.

Atal ac ymyrraeth gynnar

Dywedodd nifer o awdurdodau fod cyfeirio pobl at wasanaethau atal neu ymyrraeth gynnar, fel ail-alluogi a chymorth i deuluoedd, wedi lleihau'r galw am ofal a chymorth mwy cymhleth. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod wedi llwyddo cystal â'i gilydd, o bell ffordd, o safbwynt symud ymlaen o ddatganiadau o weledigaeth yn cymeradwyo cymorth cynnar ac annibyniaeth, at roi ar waith strwythurau rheoli a gwasanaethau newydd.

Mae awdurdodau lleol wedi datblygu llwybrau cliriach rhwng ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ehangach i roi cymorth i deuluoedd, o dan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mewn rhai ardaloedd fe sefydlwyd dulliau 'cam-i-fyny' a 'cham-i-lawr' er mwyn helpu teuluoedd i symud rhwng trefniadau cymorth a rhai statudol fel y bydd eu hanghenion yn newid. Er bod y datblygiadau hyn i'w croesawu, mae'n rhy fuan i wneud unrhyw sylwadau ar effaith y trefniadau hyn o safbwynt canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

Canolfan blant integredig yr awdurdod lleol yw Canolfan Blant Elai a Chaerau yng Nghaerdydd. Mae'n darparu ystod o wahanol wasanaethau cymunedol ac addysgol gan gynnwys ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, meithrinfa gofal dydd llawn (gan gynnwys llefydd Dechrau'n Deg) a gofal y tu allan i oriau ysgol ac yn y gwyliau, ar gyfer y gymuned leol.

Mae ethos chwarae rhydd y ganolfan ddydd yn cael ei ddefnyddio fel esiampl o arfer da ar gyfer sefydliadau eraill. Mae iechyd, lles a datblygiad cymdeithasol a chorfforol plant yn cael eu cynllunio a'u cefnogi'n dda. Ar y diwrnod pan aethom i ymweld, roedd criw o blant wedi mynd i randir lleol fel rhan o brosiect a daethant yn ôl gyda chynnyrch roeddent wedi'i hel. Penderfynodd rhai o'r plant glirio darn o dir gyda rhawiau a buont

wrthi'n frwdfrydig yn palu'r tir hwn gyda chymorth y staff.

Mae cysondeb yn y staff ac mae'r awyrgylch yn gynnes a gofalgarn a phawb yn dangos parch at ei gilydd. Dywedodd un plentyn wrthym ei bod wrth ei bodd yn dod i'r clwb gwyliau a'i bod yn mwynhau cwrdd â ffrindiau ysgol a staff. Gan fod rhai o'r plant yn mynd i'r ysgol Gymraeg ar y safle, roedd y staff yn siarad Cymraeg â nhw ac yn helpu gyda'u datblygiad ieithyddol.

Mae'r rheolwr gofal dydd yn parhau i wneud gwaith arloesol o ran gofal plant gan dderbyn yn frwdfrydig syniadau a heriau newydd. Mae'n cydweithio'n dda â gwahanol asiantaethau a gwasanaethau cefnogi er mwyn darparu ar gyfer y plant dan ei gofal wasanaeth sy'n gwella.

Roedd rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau preswyl trwy ddatblygu gwasanaethau ail-alluogi. Bu cynnydd cyfatebol hefyd yn y defnydd o wasanaethau gofal cartref, gofal seibiant a thai gofal ychwanegol er mwyn cynnig gofal yng nghartrefi pobl, yn ogystal â chynnydd yn y defnydd o dechnoleg gefnogol fel tele-

ofal. Roedd awdurdodau hefyd yn nodi bod ymyrraeth gynnar wedi lleihau dibyniaeth ar wasanaethau a bod llai o bobl wedi mynd i ofal tymor hir. Er hynny, roedd rhai awdurdodau lleol yn dal i ddweud bod y galw am ofal tymor hir, sef gofal preswyl a nyrsio, wedi cynyddu.

Cynllun gofal ychwanegol yw Llys Jasmine a agorodd ei ddrysau yn 2013. Mae'n darparu llety â chymorth er mwyn helpu pobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth – gan gynnwys dementia – i fyw'n annibynnol cyhyd ag y gallant.

Mae'n cynnwys fflatiau arbennig ar gyfer pobl sydd â dementia ynghyd â chyfleusterau gofal ychwanegol. O fewn y

61 o fflatiau sydd ar gael, mae 15 wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer pobl sydd â dementia. Mae staff gofal a chymorth ar y safle 24 awr y dydd. Mae bwyty yn rhan o'r safle a gall parau fyw gyda'i gilydd hefyd. Er nad yw AGGCC yn arolygu llety â chymorth, rydym yn rheoleiddio ac arolygu asiantaethau gofal cartref sy'n darparu cymorth i breswylwyr.

Diogelu

Cynyddodd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ychydig yn 2012-13 ac roedd gan bawb bron o'r plant ar y gofrestr weithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo iddynt, ac eithrio nifer bach o blant mewn dau awdurdod lleol.

Gwelwyd perfformiad da ledled Cymru o ran cynnal cynadleddau cychwynnol amddiffyn plant yn brydlon. Er hynny, roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y naill awdurdod a'r llall. Roedd gwahaniaeth mawr hefyd o safbwynt galw cyfarfodydd yn brydlon yn dilyn cynhadledd amddiffyn plant ond mae'n galonddid bod cynadleddau adolygu wedi cael eu cynnal yn brydlon, at ei gilydd.


Mae awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau ar y broses o ad-drefnu byrddau diogelu lleol, plant ac oedolion, i ffurfio cyrff rhanbarthol, yn unol â'r cynigion ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Plant sy'n derbyn gofal

Mae'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn awgrymu gwelliant yn y cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd i blant. Cynyddodd y nifer blant a fabisiadwyd rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013 gan 33 y cant ar y flwyddyn flaenorol.

Bu tuedd arwyddocaol i'r nifer o blant sy'n derbyn gofal gynyddu yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Yn ystod 2012-13 fe gynyddodd nifer y plant oedd yn derbyn gofal o 5,724 i 5,743. Er mai cynnydd cymharol fach yw hyn o'i gymharu â'r blynyddoedd diweddar, mae rhai gwahaniaethau allweddol i'w gweld o hyd yn y data cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Ffigur H: Cyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-21 oed



Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol: Plant sy'n derbyn gofal, ar gael ar system ddosbarthu Llywodraeth Cymru <http://www.statscymru.cymru.gov.uk>

Er mwyn sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid wrth asesu cadarn i oleuo gwaith cynllunio effeithiol, prydlon. Mae cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd yn hollbwysig. Mae'n galonogol gweld bod y perfformiad wedi sefydlogi ledled Cymru yn ystod 2012-13, o safbwynt sefydlu cynllun gofal sefydlogrwydd erbyn ail adolygiad plentyn. Bu cynnydd hefyd yn nifer y plant oedd yn derbyn gofal ac a roddwyd i'w mabwysiadu yn ystod 2012-13.

Mae gan y gweithiwr cymdeithasol swyddogaeth allweddol o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal; mewn un cyngor, fodd bynnag, dim ond 70% o'r plant oedd yn derbyn gofal y neilltuwyd gweithiwr cymdeithasol ar eu cyfer.

Mae sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi parhau yn sefydlog yn ystod 2012-13 ac 10% wedi cael tri neu ragor o symudiadau i leoliadau newydd. Fodd bynnag, roedd sefydlogrwydd o ran lleoliadau yn amrywio'n fawr, rhwng 3% a 25%. Mae sefydlogrwydd lleoliadau yn un o'r ffactorau allweddol er mwyn sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal o safbwynt addysg ac iechyd.

Mae cael profiadau ysgol cadarnhaol, sefydlog lle mae cyfleoedd a chymorth ar gael i blant sy'n derbyn gofal yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau addysgol da. Mae'n fater o bryder bod llai na hanner y plant oedd yn derbyn gofal wedi cyflawni eu dangosyddion pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a llai na thraean yng nghyfnod allweddol 3. Sylweddolir bod y garfan o blant dan sylw yn fach iawn efallai mewn rhai awdurdodau lleol ond hyd yn oed wedyn roedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn perfformiad o sir i sir.

Roedd y perfformiad yn sefydlog ledled Cymru o ran adolygiadau statudol ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal. O'r holl blant oedd yn derbyn gofal, derbyniodd 83% eu hymweliadau statudol.

Y rhai sy'n gadael gofal

Mae'r perfformiad o ran cynllunio llwybrau i'r rhai sy'n gadael gofal wedi parhau yn dda yn gyson ym mhob rhan o Gymru. Roedd gan 90% o'r bobl ifanc gynllun llwybr. Yn yr un modd, mae data perfformiad Cymru gyfan yn cadarnhau bod yr awdurdodau lleol yn dal mewn cysylltiad â 93% o'r rhai a adawodd ofal ar eu pen-blwydd yn bedair ar bymtheg oed a bod llawer o'r bobl ifanc hyn yn byw mewn tai addas.

Mae'n siomedig mai 56% yn unig o'r rhai a adawodd ofal yng Nghymru yn ystod 2012-13 oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Gofalwyr a gofalwyr ifanc

Yn 2012, fe roddodd Llywodraeth Cymru'r Mesur Gofalwyr ar waith. Ond mae nifer y gofalwyr sy'n derbyn gwasanaeth wedi parhau i fod yn rhyw 60% o'r rhai a gafodd asesiad neu adolygiad. Mae tystiolaeth mewn llawer rhan o Gymru fod ymgysylltu da yn digwydd â gofalwyr a bod nifer o wahanol ffyrdd o'u cefnogi yn cael eu datblygu. Bydd ein harolygwyr yn parhau i holi am hyn yn eu cyfarfodydd ymgysylltu a'u hymweliadau safle er mwyn deall yn well pam y mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau mor isel a sicrhau bod gofalwyr yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen.

O ran gofalwyr ifanc, cafodd 89% o'r rhai y gwyddys amdanynt eu hasesu ac fe gafodd y rhain wasanaethau yn dilyn hynny. Mae'n braf gweld hefyd bod nifer sylweddol o gynghorau wedi ymgynghori â gofalwyr a gofalwyr ifanc ynghylch y math o wasanaeth y byddent yn ei gael o fudd. Cafwyd peth adborth calonogol am y gwasanaethau a ddarperir eisoes.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol
Conwy wedi sefydlu fforwm
ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn
gofal – LLEISIAU UCHEL – gyda'r
Gwasanaeth Eiriolaeth lleol.
Eu prosiect cyntaf oedd paratoi
blwch croeso ar gyfer plant sy'n
mynd i ofal maeth - yn unol
ag awgrymiadau'r bobl ifanc,
mae'r blwch yn cynnwys llyfr
ffotograffau, llyfr stori bywyd,
cerdyn ffôn, tegan meddal,
ffrâm llun, byrbrydau, llyfr
nodiadau, brws dannedd, tortsh,
ysgrifbinnau.



Pennod Pump

Ein blaenoriaethau

Mae'r amgylchiadau yn mynd yn fwy heriol o hyd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymdeithasol yng Nghymru. Mae'r angen yn cynyddu a'r pwysau ar gyllidebau yn gwaethygu ac mae'n bwysicach nag erioed fod y gwaith rheoleiddio ac arolygu'n cael ei wneud yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas yn ddiogel ac yn cael gwasanaethau ardderchog.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2013-14 fydd gweithio yn yr holl system – gyda Llywodraeth Cymru, comisiynwyr, darparwyr, rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill, a phobl yn eu cymunedau – er mwyn sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau a rhoi gwell cyfle i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny gael ffynnu.

Bydd ein strategaeth ganolog ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir yn parhau i ganoli ar ymweliadau dirybudd i arolygu safleoedd. Byddwn yn parhau i ymweld â'r holl wasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau preswyl i blant bob blwyddyn er mwyn gweld drosom ein hunain y profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl.

Byddwn yn parhau i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn ymdrechu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Cefnogi polisi a deddfwriaeth

Byddwn yn helpu i lunio'r agenda polisi ar gyfer gwasanaethau gofal a chymdeithasol drwy ddarparu gwybodaeth pan ddatblygir Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu ac adolygiadau strategol eraill y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnal o waith rheoleiddio ac arolygu. Byddwn hefyd yn cydweithio'n glòs â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae cynllun gweithredu tair blynedd wedi'i sefydlu, yn dilyn Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, er mwyn rhoi gwell chwarae teg i'r Gymraeg mewn gwasanaethau

cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Rydym wedi gweld pa mor bwysig yw rhoi gwasanaethau i bobl yn eu dewis iaith a byddwn yn hyrwyddo'r "Cynnig Gweithredol", gan gefnogi'r cynnydd mewn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cyfrannu i'r gwaith o ddileu tlodi plant

Bydd ein gwaith yn gymorth i gyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru drwy roi sicrwydd bod y gofal a ddarperir ar gyfer plant yn rhoi'r profiadau gorau posibl iddynt. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Dechrau'n Deg. Rydym yn cofrestru ac arolygu lleoliadau gwarchod plant a mathau eraill o ofal dydd i blant dan wyth oed er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cynnig gwasanaeth o ansawdd da ar gyfer y plant a'u teuluoedd. Byddwn yn parhau i gynnal ein cynllun peilot ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref.

Aeth dau warchodwr plant di-Gymraeg o Sir Benfro ar brosiect Geiriau Bach sy'n cael ei redeg gan Ysgol Addysg Blynnyddoedd Cynnar Coleg y Drindod, Caerfyrddin, er mwyn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn darpariaethau ar gyfer pobl ifanc lle defnyddir Saesneg fel cyfrwng yn draddodiadol.

Synnwyd yr arolygydd gan y newid yn eu hymwneud â'r plant adeg yr arolygiad nesaf. Roeddent yn defnyddio ymadroddion Cymraeg gyda'r plant, yn dysgu caneuon Cymraeg iddynt ac yn chwarae â nhw yn

Gymraeg. Dywedodd rhieni wrthym yn eu hadborth fod eu plant yn dod adref yn defnyddio geiriau Cymraeg ac yn canu yn Gymraeg ac roeddent yn falch iawn o hynny.

Nid oeddent yn gwybod llawer o Gymraeg cyn mynd ar y cwrs ond ar ôl y cwrs roeddent yn siarad yn hyderus â'r arolygydd yn Gymraeg. Maent hefyd wedi helpu gwarchodwyr eraill i ddilyn y cwrs a gwneud yr un newid.

Llais i ddinasyddion a rheolaeth dros bethau

Byddwn yn parhau i roi ein Cynllun Cyfranogi ar waith a rhoi cyfle i bobl gyfranogi yn ein gwaith drwy gyfrwng:

- Ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, ein Byrddau Cynghori Rhanbarthol a'n Panelau Adolygu Ansawdd.
- Ymwelwyr annibynnol – rydym am ymestyn ein cynllun peilot i gynnwys cartrefi plant.
- Mynediad rhwyddach at ein gwaith gyda ffordd gliriach o roi adroddiadau a gwefan newydd.
- Datblygu cynigion i ddarparu ein gwasanaethau ar-lein er mwyn gwella ein perfformiad a'r ffordd rydym yn cyfathrebu â phobl.
- Arolygu pobl-ganolog – wrth graidd ein gwaith y mae gwrandao ar bobl, ymateb i'w pryderon ac arsylwi i weld pa brofiadau y maent yn eu cael.

Rheoleiddio ac arolygu effeithlon ac effeithiol

Byddwn yn parhau i gyflwyno ein Rhaglen Foderneiddio yn 2013-14, gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Rhyddhau potensial ein staff trwy gydweithio â Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu cymhwyster proffesiynol a fframwaith achrededig ar gyfer ein harolygwyr sydd yn bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn hybu ein perfformiad drwy ein galluogi i gymhwyso ein barn broffesiynol yn fwy hyderus, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- Datblygu Fframwaith Dyfarnu Ansawdd, a chynnal cynllun peilot, ar gyfer meithrinfeidd a fydd yn ein galluogi i gyflwyno darlun cliriach o ansawdd gwasanaethau, y canlyniadau ar gyfer plant a'u lles. Bydd fframwaith hefyd yn gwella dealltwriaeth pawb o 'sut mae gwasanaethau da yn edrych', gan hwyluso meincnodi, a bydd yn ein helpu i gydweithio â darparwyr a chomisiynwyr i fynnu gwelliant.

- Datblygu system TGCh newydd i gefnogi ein prosesau busnes, gan helpu i reoli a rhannu gwybodaeth yn well a chan arwain at fwy fyth o ymgysylltu â phobl..

Cadw pobl yn ddiogel

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein gwerthusiad o'r Fframwaith Adrodd Blynnyddol ar gyfer Cynghorau i oleuo ein gwaith gyda'r awdurdodau lleol a bydd ein hadolygiadau cenedlaethol/thematig yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- Comisiynu gofal cymdeithasol i oedolion.
- Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal.
- Arolygu Cafcass Cymru.
- Defnyddio trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Gweithio gyda'n gilydd i wella canlyniadau

Byddwn yn parhau i gydweithio'n glòs gyda rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill, yn enwedig drwy Arolygu Cymru. Bydd y gwaith a wneir ar y cyd yn cynnwys:

- Arolygiad thematig o Ddiogelu mewn Gwasanaethau Troseddau leuenctid, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
- adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o'r gefnogaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- adolygiad comisiynu a fydd yn edrych ar gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion gan ganolbwyntio'n arbennig ar ofal dementia. Bydd hyn yn digwydd ar y cyd gyda SAC ac AGIC.
- Adolygiad o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Bydd ein rhaglen waith gyda'r Cyngor Gofal yn cynnwys datblygu:

- Ein canolfan wybodaeth er mwyn inni allu rhannu gwybodaeth yn well a'n banc gwybodaeth er mwyn gwneud rhanddeiliaid yn fwy ymwybodol o'n gwasanaethau.
- 'Porth' cyffredin er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn fwy cyfannol.